# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 348

Ebrill 2012

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# Yr haul yn disgleirio i Swyddfa Bost y pentref



Mae Swyddfa Bost Y Borth yn gobeithio cael gwanwyn a haf heulog braf gan mai nhw yw'r cyntaf i osod paneli ynni solar trwy'r prosiect Ynni i Ffynnu.

Yn dilyn arolwg safle ac adroddiad diduedd ar sut i ddefnyddio llai o ynni ac arbed costau, penderfynodd is-swyddfa'r post y Borth osod rhes o baneli ffotofoltäig solar 4 kWp. Costiodd y system tua £13,000 i'w gosod a disgwylir iddi gynhyrchu dros 3,500 kWh y flwyddyn, sy'n cyfateb i gynhyrchu refeniw blynyddol o dros £1,700. Yn ffodus ddigon llwyddodd y busnes i osod y paneli cyn y toriadau a gafodd eu cyflwyno ym mis Rhagfyr i'r tariff bwydo-i-mewn, gan greu enillion ar fuddsoddiad o saith mlynedd. Mae hyn yn golygu bod y 18 mlynedd dilynol o incwm o'r tariff bwydo-i-mewn yn elw clir.

Cafodd y Swyddfa Bost help llaw gan wasanaeth cymorth i fusnesau Cyngor Sir Ceredigion, sef Ynni i Ffynnu: Ynni adnewyddadwy ar gyfer twf busnesau, sy'n cynnig archwiliadau ynni a chyngor diduedd yn rhad ac am ddim i ficrofentrau yng Ngheredigion. Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Mae Ynni i Ffynnu yn cael ei weithredu ar ran Cyngor Sir Ceredigion gan Asiantaeth Ynni Gwy Hafren mewn partneriaeth ag Ecodyfi.

Fe fydd Ynni i Ffynnu yn darparu arolygon safle i 200 o fusnesau bychain, gyda'r adroddiadau dilynol yn cynnig atebion ynni adnewyddol addas er mwyn cynhyrchu ffynonellau ariannol i'r busnesau dan sylw. Bydd pob adroddiad yn cynnwys dewislen o ddulliau arbed ynni y gellir eu mabwysiadu.

Dywedodd Mike Willcox, yr Is-bostfeistr, "Roedd yr adroddiad yn drwyadl, yn ddefnyddiol ac yn ddiddorol iawn gan awgrymu nifer o bethau y gallwn i ei wneud i arbed ynni. Rydw i wedi newid rhai offer a bydda i'n mynd ati nawr i insiwleiddio o dan yr adeilad." Wrth ddisgrifio'r system PV, dywedodd ei fod yn "hapus iawn â'r gosodwyr, D M Jones. Dewises i nhw oherwydd eu bod nhw'n gwmni lleol dibynadwy. Roedden nhw wedi cadw at yr amserlen er gwaetha'r tywydd anodd ac roedd yn amlwg bod y gosodiadau roedd rhaid iddyn nhw eu defnyddio yn y llecyn agored hwn o safon uchel iawn."

Erbyn hyn mae'r busnes yn ystyried amrywiaeth o welliannau effeithlonrwydd ynni i leihau costau ymhellach, a bydd Gwy Hafren yn cydweithio â nhw i'w helpu i roi'r argymhellion hynny ar waith. Dywedodd Andy Rowland o ecodyfi, "Yn dilyn datganiadau diweddar gan Lywodraeth San Steffan am y cymhellion i fuddsoddi mewn gwresogi adnewyddol a chynhyrchu trydan, nawr yw'r amser delfrydol i berchnogion busnes ystyried y posibiliadau o ddifri". Os yw eich mudiad chi'n fusnes micro / menter gymdeithasol a hoffech elwa o'r cymorth di-dâl a roddwn, ffoniwch ni ar 01654 703965 neu info@ynni-i-ffynnu.co.uk.

# Enillwyr 2012



Alaw Pyrs Evans, Llanfachreth, Dolgellau - enillydd Tlws yr Ifanc a gwobr o £25 - rhodd gan Aaron ac Ashley Stephens.



John Meurig Edwards, Aberhonddu, enillydd y Gadair a £50 - yn rhoddedig gan Gareth Phillips, Caerdydd er cof am ei rieni y Parchg Arwyn P. a Mrs Morfudd Morris.

Lluniau: Arvid Parry-Jones

Gweler t.10-12 am fwy am Eisteddfod Penrhyn-coch

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 348 | Ebrill 2012

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru


## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Eirian Hughes, Lluest Fach ☎ 880 335; Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880 275; Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England, Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

## DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MAI 3 a MAI 4 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MAI 17

EBRILL 27 Nos Wener Noson Goffi Clwb Crefft Genau'r-glyn am 7.00.

MAI 1-31 Arddangosfa Wyn Melville Jones ym Morlan, Aberystwyth

MAI 3 Dydd Iau Etholiadau Cyngor Sir a Chynghorau Cymuned

MAI 3 Nos Iau Noson Ffagl Gobaith a MusicFest yn y Neuadd Fawr

MAI 10 Nos Iau Paper Aeroplanes ac Al Lewis yn y Llew Du, Aberystwyth

MAI 10 Nos Iau Darlith 'Sefyllfa'r ddrama yng Nghymru a dyfodol y Theatr Gymraeg, gan gynnwys y Theatr Genedlaethol', gan yr Athro Tudur Hallam yn y Llyfrgell Genedlaethol am 7.30

MAI 13-19 Wythnos Cymorth Cristnogol

MAI 17 Dydd Iau Agoriad swyddogol Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn yng nghwmni Yr Archdderwydd, Jim Parc Nest

MAI 18 Dydd Gwener Stomp yn Llety Ceiro, gydag Arwel Roberts (Pod) yn Stompfeistr. Noson o hwyl Croeso cynnes i bawb.

MAI 24 a 25 Nos Iau a Dydd Gwener Arad Goch yn cyflwyno Guto Nyth Brân yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.00 nos Iau a 10 ac 13.00 dydd Gwener - y perfformimad olaf yn Saesneg. Perfformiad nos Iau ar gyfer teuluoedd. Tocynnau: 623232

MAI 26 Mai Nos Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor rhwng 6 pm - 8.30 pm

MEHEFIN 4-9 Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru Eryri

MEHEFIN 9 Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth

MEHEFIN 9 Nos Sadwrn Noson o ganu gwlad gyda John ac Alun a Wil Tân yn Llety Parc, Aberystwyth o 8.00-11.30. Tocynnau: £10 Elw i Apêl Nyrs Ceredigion, Sefydliad Prydeinig y Galon

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mawrth 2012

£25 (Rhif 230) Llinos Jones, Dolgerddinen, Comins -coch
£15 (Rhif 126) Steven Williams, Llys y Coed, Penrhyn-coch
£10 (Rhif 6) Morris Morgan, Bwthyn, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Mawrth 14. Os ydych chi am fod yn Gyfaill cysylltwch â'r Trefnydd - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan. ☎ 880 228

Cyhoeddir *y Tincer* yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

**Telerau hysbysebu**
Tudalen lawn (35 x 22 cm) £100
Hanner tudalen £60
Chwarter tudalen £30
neu hysbyseb bach ca. 5 x 8 cm £6 y rhifyn - £40 y flwyddyn (10 rhifyn - misol o Fedi i Fehefin); mwy na 6 mis + £4 y mis , llai na 6 mis - £6 y mis. Cysyllter â Rhodri Morgan os am hysbysebu.

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB (☎ 612 984)

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# 20 Mlynedd 'Nôl



Parti cerdd dant dan 12 oed Ysgol Rhydypennau (Mawrth 14.45)
LLUN: Hugh Jones



Parti dawnsio gwerin dan 12, Ysgol Penrhyn-coch; rhes gefn (o'r chwith i'r dde: Glen Colgate, Andrew Turner, Ioan Beechey, Dylan James, Meilyr Howells; rhes ganol: Emily Maltman, Ruth Evans, Laura Harding, Rhian Haf, Bethan Thomas, Catrin Jones; rhes flaen: Lynne Hughes, Sara Lathwood, Sara Jones, Nia Davies. (Mercher 12.25) LLUN: Hugh Jones

**Wow Ffactor Go Iawn - Sêr Rhyngwladol yng Ngheredigion!**

Beth fyddwch chi yn ei wneud ar nos Iau, y 3ydd o Fai? O bosib byddwch yn pleidleisio yn yr etholiadau llywodraeth leol, a gobeithio'n fawr hefyd y byddwch yn mynychu cyngerdd arbennig iawn yn Aberystwyth.

**Cyngerdd eitha' neilltuol i bobl Ceredigion!**

Ar y noson honno bydd yr elusen Ffagl Gobaith â Musicfest yn cyflwyno noson o gerddoriaeth glasurol tra gwahanol. Bydd y pwyslais ar y rhyfeddol - a heb os fe'ch gadewir yn geg-agored, yn synnu ac yn rhyfeddu ar sut yn y byd y mae'r cerddorion yn medru gwneud y fath gampau. Ceir hefyd joch dda o hwyl a hiwmor.

Yn cyflwyno rhai o gerddorion gorau Prydain yn perfformio bydd Glyn T Jones. Cerddorion sydd yn enwog yn eu meysydd ac sydd wedi perfformio a recordio'n helaeth gan gynnwys David Campbell ar y Clarinét - a gydnabyddir fel clarinetydd gorau ei genhedlaeth. Gerard McChrystal o'r Iwerddon, sydd ar hyn o bryd yn Athro Saxophone yn un o golegau cerdd Llundain, (dewiswyd ei albwm Aria yn un o recordiau gorau 2011 gan Classic FM), y baswnydd Laurence Perkins a dau bianydd o fri - Simon Lane a John Flinders. Bydd rhai o'n talentau lleol gorau ein hardal ni hefyd yn perfformio - Nest Jenkins y delynores hynod o Ledrod sydd newydd ennill Cerddor Ifanc y Flwyddyn Dyfed, a phedwar côr - Côr Ger y Lli, Cantorion y Ffagl, a chorau Ysgolion Penrhyn-coch a Llanilar.

Cynhelir y noson yn y Neuadd Fawr, Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth am 7.30yh a'r nod yw rhoi noson i'w chofio i chi fel cynulleidfa a chodi arian i Ffagl Gobaith ac i ariannu ysgoloriaethau i alluogi cerddorion ifanc addawol i fynychu Ysgol Haf dwys Musicfest. Mae tocynnau'n £10 (Gostyngiad £8, Plant dan 12 yn rhad ac am ddim gyda thocyn) ac ar gael o Ganolfan y Celfyddydau (01970 623232), Siop Elusen Ffagl Gobaith, Y Ffynnon Haearn (Chalybeate Street) Aberystwyth, Swyddfa Ffagl Gobaith,10 Stryd y Popty, Aberystwyth (01970 615593), Swyddfa Ffagl Gobaith Machynlleth, Y Ganolfan Ofal, Forge Road (01654 703311) a Siop Recordiau Hag, 23 Heol y Bont, Llambed. Dyma fargen y flwyddyn - mae'n rhaid i chi fod yno!

**Dogfen ar gael**

Mae pwyllgor y Tincer wedi derbyn copi o'r ddogfen bwysig *Bwrdd yr Iaith Gymraeg: Adolygiad 1993-2012*, cyhoeddiad sy'n edrych yn ôl ar hanes y Bwrdd ac yn cynnig argymhellion i Gomisiynydd y Gymraeg ac i Lywodraeth Cymru, er mwyn ceisio sicrhau y byddant yn adeiladu ar lwyddiannau'r Bwrdd. Os hoffech fenthyg copi, plis cysylltwch ag ysgrifennydd y Tincer.

**Gwahoddiad**

Sefyllfa'r ddrama yng Nghymru a dyfodol y Theatr Gymraeg, gan gynnwys y Theatr Genedlaethol, fydd pwnc darlith arbennig gan yr Athro Tudur Hallam yn y Llyfrgell Genedlaethol nos Iau, 10 Mai am 7.30. Enillodd Tudur Ysgoloriaeth Cronfa Goffa Saunders Lewis ddwy flynedd yn ôl gan ddewis astudio dramâu Saunders Lewis a'r gwersi posib ar gyfer dramodwyr heddiw. Yn y ddarlith fe fydd yn holi pam nad yw'r ddrama Gymraeg wedi blodeuo yn y blynyddoedd diwethaf o gymharu â maes barddoniaeth ac ysgrifennu ffuglen gan gyfeirio at rai perfformiadau diweddar gan gynnwys Tyner yw'r Lleuad Heno, Llwyth, Sgint a Fala Surion.

Bydd hefyd yn cyfeirio at rai o'r nodweddion a wnaeth Saunders Lewis yn ddramodydd o bwys rhyngwladol a beth y gall dramodwyr heddiw ddysgu ac elwa o'i waith. Noddir y ddarlith gan Gronfa Goffa Saunders Lewis a Chymdeithas Ddysgedig Cymru ac mae tocynnau'r ddarlith ar gael yn rhad ac am ddim o'r Llyfrgell Genedlaethol. Croeso cynnes i bawb


STEAM PIE YN CYFLWYNO
ALLAN YN Y FAN
TAITH PWNCO GWANWYN 2012

| | | |
|---|---|---|
| **EBRILL** | | |
| 15 | Canolfan Gelfyddydau Chapel, Caerfaddon | 01225 461700 • chapelarts.org |
| 20 | Theatr Soar, Merthyr Tudful | 01685 722176 • theatrsoar.com |
| 27 | Theatr Felinfach, Dyffryn Aeron | 01570 470697 • theatrfelinfach.com |
| **MAI** | | |
| 5 | Theatr y Lyric, Caerfyrddin | 0845 226 3510 carmarthenshiretheatres.co.uk |
| 11 | Canolfan Gelfyddydau, Aberystwyth | 01970 623232 aberystwythartscentre.co.uk |
| 12 | Sefydliad Glowyr y Coed-duon | 01495 227206 • caerphilly.gov.uk/bmi |
| 16 | Theatr y Grand Abertawe, Adain y Celfyddydau | 01792 475715 swanseagrand.co.uk |
| 17 | Theatr Richard Burton, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru Caerdydd | 029 20391391 rwcmd.ac.uk |
| 18 | Theatr Colwyn, Bae Colwyn | 01492 577 888 • theatrcolwyn.co.uk |
| 19 | Canolfan Ucheldre Caergybi | 01407 763361 • ucheldre.org |
| 25 | Neuadd Dwyfor, Pwllheli | 01758 704088 gwynedd.gov.uk/neuadd-dwyfor |
| 26 | Y Neuadd Les Ystradgynlais | 01639 843163 • thewelfare.co.uk |

"Ysbrydoliaethol"
Max Boyce

Mae'r albwm newydd PWNCO ar gael nawr!



www.ayyf.co.uk

PROPER
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Supported by The National Lottery through the Arts Council of Wales
Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol trwy Gyngor Celfyddydau Cymru
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government

# Y BORTH

### Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Megan Soffia Evans, Ynyswen , ar ei dyweddiad diweddar â Robert Evans o Faesteg. Byddant yn priodi yn Eglwys y Borth ar Fai 25ain eleni.

### Cronfa Tomos Owen

Cafwyd noson hwyliog yng nghaffi'r Graig – *Boulders*, Siop Nisa – pan ddaeth nifer o ffrindiau, cymdogion a chysylltiadau eraill i helpu dathlu pen-blwydd Eurgain Rowlands, Hafod Heli, mewn parti *Body Shop* er budd elusen.

Llywiwyd y gweithgareddau gan Maggie Mence, ymgynghorydd *Body Shop*, a fu'n dangos i'r gwesteion sut i fynd ati i fwytho'r gwefusau a'r dwylo gyda gwahanol goluron arbenigol y cwmni.

Gwestai pwysicaf y noson oedd Mary Owen, Ffordd Llanbadarn, Aberystwyth. Bu Hywel, mab hynaf Mary, yn gyd-ddisgybl â Carwyn, mab ieuaf Eurgain, yn Ysgol Penweddig ganol y 1980au, ac mae'r gyfeillgarwch wedi parhau.

Roedd Tomos, 'brawd bach' Hywel, yn gyd-ddisgybl ym Mhenweddig yn ystod yr un cyfnod hefyd, a loes enbyd oedd ei golli yn ifanc. Bu farw ym mis Ionawr 2009, yn 31 mlwydd oed, wedi brwydr ddewr. Eisoes, roedd wedi cael gyrfa ddisglair fel Cynhyrchydd Chwaraeon gyda BBC Cymru.

Ar ddechrau'r noson, soniodd Mary am *CRONFA TOMOS OWEN LEUKAEMIA FUND* a sefydlwyd er cof, a'r modd yr oedd y tu hwnt i'w amgyffred hi a'i gŵr Huw, yn ogystal â'u mab hynaf Hywel, sut y bu haelioni a charedigrwydd ffrindiau, cyd-weithwyr a theulu yn fodd i drosglwyddo £22,000 eisoes o'r Gronfa i hybu ymchwil pellach.

Ar y noson hon yn y Borth, drwy gyfrwng raffl, elw archebion a gwerthiant sgwariau elusen *Body Shop*, a nifer o roddion personol, llwyddwyd i drosglwyddo'r swm o £363 i'r gronfa, ac mae'r diolch yn ddiffuant iawn i bawb wnaeth gefnogi.



(yn y cefndir) Jennifer Roberts a Valerie Grant
(rhes flaen, o'r chwith i'r dde) Hefina Davies-Wright, Maggie Mence, Mary Owen, Eurgain Rowlands, Mia Eldridge, Marian Beech Hughes, Pippa Eldridge



Delyth Ifan (ar y chwith) a Catrin Moseley (ar y dde), mamau i ddwy o ddisgyblion piano Eurgain (yn y canol)



Sharon Fleet, Frondeg (ar y dde) yng ngofal y raffl




Roy Jones, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Borth Unedig yn diolch i Gadeirydd Carnifal y Borth, Carol Bainbridge, am eu cyfraniad tuag at y 26 sedd newydd a osodwyd yn ddiweddar yn stand y clwb.



Amddiffynfeydd newydd y Borth o'r awyr. Llun: Rhodri Llwyd

# LLANDRE

### Yng ngofal Seremoni

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Nia Peris ar gael ei dewis i fod yn Feistres y Ddefod yn Seremoni'r Cadeirio brynhawn dydd Iau yn Eisteddfod yr Urdd, Eryri eleni.

### Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r Glyn

Yn ein cyfarfod fis Mawrth cawsom wledd i'r clustiau ac i'n boliau! Croesawyd Annette Williamson a'i ffrind Elsa atom i'n diddori. Dwy ddysgwraig yw Annette ac Elsa ac mae Annette yn un o drigolion Llandre. Cawsom raglen hynod o swynol ganddynt pan fuodd y ddwy yn chwarae deuawdau ac unawdau a nifer fawr o wahanol offerynnau cerdd. Ar ôl y gerddoriaeth roedd bwyd blasus wedi ei baratoi gan aelodau o'r gangen, o dan oruchwyliaeth Elina Davies a chawsom gyfle i sgwrsio yn Gymraeg a hybu'r ddwy ddysg wraig i gario ymlaen gyda'r dysgu Cymraeg a'r gerddoriaeth.

### Priodas

Llongyfarchiadau a pob dymuniad da i Nia a Huw Williams, Cysgod y Gaer, ar eu priodas ar Ddydd Iau Cablyd yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â May Davies, Brynhyfryd ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith mis diwethaf.

### Treftadaeth Llandre

Ebrill 26 - Hanes Bwstryd a'i chyffiniau - Yr Athro Harold Carter. Ysgoldy Bethlehem Llandre am 7.30 yh.

### Noson Goffi

Noson goffi Clwb Crefft Genau'r-glyn. Nos Wener Ebrill 27 am 7.00 yh. Croeso i bawb.

### Curad newydd

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y bydd David Ceri Jones yn dod yn gurad i eglwysi Llangorwen a Llanfihangel Genau'r-glyn. Yn frodor o Bort Talbot, mae David wedi byw yn ardal Aberystwyth ers pan ddaeth yma i'r coleg ym 1992. Bu'n gweithio am bum mlynedd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru yn golygu llythyrau Iolo Morganwg. Ers 2005 mae yn ddarlithydd yn Adran Hanes a Hanes Cymru y Brifysgol ac yn addysgu amrywiaeth eang o fodiwlau yn yr adran gan gynnwys cyrsiau cyflwyniadol ar Gymru ganoloesol ac yn y cyfnod modern cynnar, a modiwlau ar y Diwygiad Ewropeaidd a Byd yr Iwerydd.

Mae wedi datblygu'r gwaith hwn yn sylweddol gan ysgrifennu ymhellach am ddatblygiad Calfiniaeth yn y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac yn ddiweddar cwblhaodd *The Elect Methodists: Calvinistic Methodism in England and Wales, 17351811*, cyfrol gynhwysfawr sy'n olrhain hanes Methodistiaeth Galfinaidd a gaiff ei gyhoeddi unrhyw ddiwrnod gan Wasg Prifysgol Cymru. David hefyd yw golygydd y cyhoeddiad nodedig *Proceedings of the WesleyHistorical Society.*

Mae'n briod â Clare ac mae ganddynt dair merch - Carys, Celyn ac Alys. Mae'r teulu yn addoli yn Eglwys Mihangel Sant, Aberystwyth ac mae David yn cynnal blog http://davidceri.blogspot.com/

Bydd yn cael ei ordeinio yn Eglwys Gadeiriol Tyddewi ar 30 Mehefin am 10.30. Mae'r gwasanaeth yn un cyhoeddus ac yn agored i bawb.

### Helfa Wyau Pasg Llandre

Ddydd Sadwrn cyntaf y gwyliau gwelwyd y prysurdeb rhyfeddaf yn Llandre wrth i blant a theuluoedd y fro dyrru tua Pantyperan ar gyfer helfa wyau Pasg i gasglu arian i Gylch Meithrin Rhydypennau. Braf iawn oedd gweld y gymuned yn dod ynghyd i gael hwyl ac i gefnogi'r Cylch. Mae'r hanes i'w gael yn llawn ar dudalen 14 ond hoffai'r Cylch ddiolch yn fawr i deulu Pantyperan am ein croesawu yno ac am sicrhau bod y digwyddiad yn un mor llwyddiannus eto eleni.

### Llwybr llên Llanfihangel Genau'r-glyn

Llanfihangel Genau'r-glyn yw un o'r enwau harddaf yn yr iaith Gymraeg. Mae wedi ysbrydoli beirdd dros y canrifoedd. Roedd Llysoedd yn yr ardal yn noddi beirdd nôl yn y 12fed ganrif a dyma hefyd ardal Dafydd ap Gwilym. Mae'r traddodiad yn dal yn fyw ac mae nythed o feirdd yn byw yn y pentref heddiw. Mae'r Llwybr unigryw hwn wedi ei greu mewn coedwig wrth ymyl eglwys Llanfihangel. Mae'r Llwybr tua chwarter milltir o hyd ar ochr llechwedd ac mae'n cynnwys 16 o baneli o gerddi - cerddi sydd wedi eu hysbrydoli gan Lanfihangel Genau'r-glyn neu gerddi gan feirdd lleol. Mae'n gynllun parhaol a bu angen codi £10k er mwyn gwireddu'r freuddwyd. Wedi gwneud hynny golygodd lawer o waith gwirfoddol a chafwyd cymorth nifer o bobol sy'n cael eu hadfer o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau eraill i wneud elfennau o'r gwaith ymarferol. Disgwylir y bydd unigolion a grwpiau bychain yn ymweld â'r llwybr o'r de a'r gogledd - ysgolion, colegau, cymdeithsau llenyddol a chymunedol ac o safbwynt y bobol leol mae'n ddathliad o'n treftadaeth farddol yn y fro hon. Mae'r Llwybr yn un o gynlluniau Treftadaeth Llandre ac eisoes wedi denu diddordeb yn lleol a thu hwnt.

Cynhelir yr agoriad yn y goedwig ar nos Iau Mai 17 am 6.30 o'r gloch. Mae'r Archdderwydd Jim Parc Nest wedi derbyn gwahoddiad i agor y llwybr yn swyddogol. Yn dilyn y seremoni fer bydd noson o gerddoriaeth a barddoniaeth yn Eglwys Llanfihangel. Un nodwedd ddiddorol o'r noson hon fydd clywed yr Arglwydd Elystan-Morgan yn darllen detholiad o awdl ei dad Y Prifardd Dewi Morgan "Cantre'r Gwaelod" a enillodd iddo gadair Eisteddfod Genedlaethol Cymru Pwllheli 1925. Mae dethoiad o'r awdl ar un o baneli'r Llwybr.

Mae agoriad y Llwybr Llên yn un o ddigwyddiadau pwysicaf cymuned Genau'r-glyn erioed ac mae yna weithgareddau eraill yn cael eu cynnal yno am y penwythnos i gefnogi'r Agoriad ac yn cynnwys Stomp, Storïwr yny goedwig, Taith Gerdded a Barbeciw.

Erbyn hyn gyda'r gwaith ar fin ei gwbwlhau mae nifer o bobol wedi dechrau cerdded y Llwybr ac mae'r ymateb yn bositif iawn. "Mae darllen barddoniaeth yng nghysgod y dail yn brofiad unigryw ac mae'r naws yn ychwanegu at y cerddi a'r cerddi yn cyfoethogi'r pentref", yn ôl un ymwelydd yn ddiweddar.

C.FF.I. CEREDIGION Y.F.C.
www.yfc-ceredigion.org.uk

Cinio Dathlu CFfI Ceredigion – 70 oed!

30ain o Fehefin 2012

ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 7yh
Pryd tri chwrs a cherddoriaeth fyw - £25 y pen

Croeso cynnes i bawb!
Gobeithio medrwch ymuno â ni i ddathlu'r garreg filltir bwysig yma.

I archebu lle, cysylltwch â Swyddfa CFfI Ceredigion ar
01545 571 333 cyn gynted â phosib

HYBU CIG CYMRU
FUW
NFU CYMRU

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

### Bingo yn y Neuadd

Mae Pwyllgor Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor, yn cynnal noson Bingo ar 11eg Mai. Mae'r noson yn dechrau am 7.30 ac mae'r elw yn mynd tuag at ariannu digwyddiad dathlu y Jiwbali. Rydyn yn gobeithio cynnal te dathlu y Jiwbali a gweithgareddau eraill ar dydd Sul y 3ydd o Mehefin. Mae angen gwirfoddolwyr arnom i drefnu dathliadau Jiwbali, felly mae pob croeso i unrhyw un sydd â diddordeb ddod i'r cyfarfod nesaf sy'n cael ei gynnal dydd Mercher yr Ail o Fai am 7.30 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

### Llongyfarchiadau

Cyfarchion hwyr i Mr a Mrs Noel ac Eluned Scott, Brynawel, ar achlysur eu priodas aur ar yr 2il o Fawrth. Dymuniadau gorau iddynt, Ymlaen yn awr i'r diamwnt!

### Ysbyty

Danfonwn ein cofion gorau i Mrs Ann Davies, Maencrannog, sydd wedi bod yn yr ysbyty y mis diwethaf. Balch yw cofnodi ei bod yn teimlo yn well erbyn hyn. 'Rydym wedi gweld eich eisiau yn fawr Mrs Davies o'r cwrdd a'r Ysgol Sul. Brysiwch wella.

Hefyd ein dymuniadau gorau i Mrs Enid Vaughan, Maesawel, sy'n dal yn yr ysbyty wrth fynd i'r wasg. Gan ei bod yn wyliau y Pasg, mi allodd ei mherch Meinir ddod o Gaernarfon, i fod gyda hi. Ein gobeithion yw, y byddwch adref yn fuan Mrs Vaughan.

### Cylch Meithrin Pen-llwyn

Mae'r Cylch wedi cael amser prysur dros y Pasg ar ôl cael diwrnod arbennig yn ein Helfa Wyau blynyddol a dod at ein gilydd am sesiynau hwyl a chymdeithasu. Cynhaliwyd yr Helfa Wyau yn Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd eleni a bu'r plant yn brysur yn chwilota am gliwiau a chael eu gwobrywo â phaced o wyau Pasg am eu hymdrechion. Roedd y tywydd yn braf a'r 'Hot cross buns', yr hufen ia, y bwrdd celf a'r paentio wynebau yn plesio pawb. Diolch i ymdrechion y rhieni a'n noddwyr hael cawsom raffl benigamp gyda'r brif wobr yr hampr cynnyrch Cymreig yn mynd i Mrs Tracy Exley, un o staff gweithgar ein cylch. Diolch hefyd i'r rhoddion hael o Farm Ffantasi a Style Box, Llanrhystud, y tafarnau lleol Tynllidiart a'r Maes; Beauty Spot, Bela Vita, Canolfan Hamdden Plas-crug, Lloyd Herbert & Jones, Toys will be Toys, Siop Inc, a'r busnesau lleol yn cynnwys Garej yr Exchange, Statkraft, Edu-Pets, Chwaethus a Derigalteisen. Gyda'i help nhw, y rhieni a'r bobl a ddaeth i'n cefnogi gwnaethom bron 900 o bunnoedd, record i'r Cylch mewn un diwrnod.

Dros y gwyliau cawsom fwy o hwyl yn cymdeithasu - diolch i drefniant Alice Briggs. Bu i ni fentro i Nant yr Arian, wedi'r gwynt a'r eira gilio, i fynd am dro, galw mewn yn ystafell gelf y Ganolfan a chwarae yn y parc. Diolch i Elizabeth Kensler, a Ieuan Joyce, Ochr Fawr am ein gwahodd yn ôl am docyn a chael cwrdd â'r oen swci yn y llun a chael prynhawn hamddenol yn edmygu golygfeydd anghygoel Ystumtuen. Yn ail wythnos y gwyliau buom ar Dren bach y Rheidol i fyny at Bontarfynach a Carol a Tim Macy fu'n edrych ar ein hôl ni gyda te parti y tro yma. Diolch iddyn nhw am eu croeso a'u haelioni.

Mae'r Cylch Meithrin yn cael ei gynnal yn Neuadd Capel Bangor er mwyn plant y fro sy'n estyn o Bontarfynach i Bonterwyd a Phen-llwyn. Yn anffodus mae Mrs Sharon Rees-Griffiths, ein Harweinyddes wedi penderfynu ein gadael ni ar ôl llawdriniaeth ar ei phen-glin. Gwellhad da iddi a phob hwyl i'r dyfodol. Mae lle felly am aelod arall i ymuno â'n tîm gweithgar yn y Cylch ac os oes unrhyw un â diddordeb mewn bod yn Gynorthwy-ydd cysylltwch â Eirian Jenkins (07929 907220), ewj23@hotmail.com neu Elen Howells (01970 881034) o'r Pwyllgor rhieni am fwy o fanylion. Cysylltwch hefyd os oes gyda chi blentyn sydd â diddordeb dod i'r Cylch. Mae yn Gylch Meithrin prysur iawn, felly gorau po gyntaf i ni gael gwybod am blant sydd am ddod i ni wneud trefniadau i'w derbyn hwy a threfnu'r gwasanaeth gorau. Cynhelir y Cylch pob bore trwy'r wythnos, rhwng 9yb-12yp, i blant o ddwy oed i oedran ysgol.

26 Mai Nos Sadwrn

**Barbeciw**

Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor

6 pm - 8.30 pm

Croeso cynnes



Ana Joyce, Seren Skipp, yn dal yr oen swci, ac Efanna Lewis, Cylch Meithrin Pen-llwyn ar eu gwyliau Pasg ar ôl bod yn Nant yr Arian.



Rhai o blant y Cylch Meithrin a'u brodyr a chwiorydd yn aros am y Trên yng ngorsaf Aber-ffrwd.

### Marwolaeth

Collwyd un arall o'n haelodau o'r capel, sef Mr James Lewis, Llysalaw, yn 91 mlwydd oed. Ganwyd ef yn siop Exchange yn y pentref, ac aeth i'r ysgol yn Aberystwyth, ac yn ddiweddarach bu yn gweithio yn y siop, am flynyddoedd gyda'i dad sef Mr Isaac Lewis, a oedd yn flaenor yn y capel. O dipyn i beth symudasant i Llysalaw, a siom fawr i Jim ymhen amser oedd colli ei rieni. Arhosodd yn Llysalaw, ond cadwodd o fewn muriau ei dŷ ers tipyn o amser bellach. Serch hynny, dengys groeso i unrhyw un a fyddo yn galw i'w weld, a byddai diddordeb mawr ganddo yng ngweithgareddau y capel, ac yn wir y pentref. 'Roedd ei angladd yn hollol breifat, a chladdwyd ei weddillion ym medd ei dad a'i fam. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r cysylltiadau oll. Heddwch i'w lwch.

Hefyd collwyd cymeriad hoffus ar Ebrill y 3ydd, sef Mrs Dorothy Roberts, 15 Pen-llwyn ( Dol, fel yr adnabyddid hi ) yn 96 mlwydd oed. Nid oedd yn mynd allan cymaint yn ddiweddar, gan fod

ei golwg yn pallu. Bu yn weithgar iawn a chofiwn hi yn mynychu y dosbarth Beiblaidd yn gyson, ac yn y gorffennol yn perfformio yn nramâu y pentref, a chant a mil o bethau i helpu eraill. Nid oedd Dol byth yn grwgnach, hyd yn oed yn ei salwch. 'Roedd yn meddwl y byd o'r ŵyrion a'r gorŵyrion, a hwythau yn meddwl y byd ohoni hi. Yn ei salwch cafodd ofal mawr gan Alma, ei merch, ac yn wir y teulu cyfan. Arweiniwyd ei hangladd gan y Parchg Richard Lewis yn Amlosgfa Aberystwyth, yng nghwmni ei theulu, cymdogion a chyfeillion mewn gwasanaeth teimladwy iawn. Darllenodd y Parchg Richard Lewis ddwy deyrnged weddus, oedd wedi eu hysgrifennu gan ei hŵyrion Clem ac Edward. Fel y dywedasant, er i Nain ddiodd llawer o dreialon ei hun yn ystod ei bywyd, roedd bob amser yn barod i helpu anffodusion eraill. Cydymdeimlwn âg Alma (merch), Gordon (mab yng nghyfraith), ei hŵyrion Clem ac Edward, ei gorŵyrion Craig, Stephanie ac Ethan, a'r cysylltiadau i gyd. Côf da amdani.



**Sialens ein harwr Cefin**

Llawenhawn fod Cefin Evans, Rhiwarthen Isaf, wedi dychwelyd yn ddiogel o'i sialens o feicio, credwch neu beidio, ym mynyddau yr Himalaya! Yr oedd, mae'n debyg, yn brofiad anhygoel. ac yn artaith, gan fod yr ocsigen ond 50 y cant mewn mannau, i gymharu â lefel y môr. 'Roedd y râs mewn 10 rhan, gyda chyfanswm o dros 12,000m o gynnydd pellter uwchlaw lefel y môr. Mae'r "Yak Attack" yn wir wedi bod yn brofiad bywyd iddo, ac yn dwyn atgofion cofiadwy. Diweddodd Cefin y ras yn gyntaf allan o gystadleuwyr Ewrop, a'r wythfed yn y byd, a hynny yn erbyn cystadleuwyr proffesiynol.

Tybed beth fydd sialens nesaf Cefin? gan ei fod wedi dod yn ail yng nghystadleuaeth Fferm Factor eisioes! Pob hwyl iddo yn y dyfodol.

**Trec Jiwbili Troed a Phedol**

Bydd Sioe Capel Bangor a'r Cylch ynghyd â'r Lleng Brydeinig yn cynnal trec cerdded a trec ceffylau ar ddydd Llun Mehefin 4edd. Bydd yna drec 2.5 milltir a 5.5 milltir i gerddwyr ac un 5.5 milltir neu 15milltir i geffylau. Dechreuir y gweithgareddau o gae Tom Price ym Manc y Darren a bydd y teithiau gwahanol yn mynd a chi ar lwybrau hyfryd ardal Cwmerfin. Bydd yna hefyd ddawns i ddilyn yn yr hwyr. Am fwy o fanylion edrychwch ar y wefan www.capelbangorshow.co.uk

# TREFEURIG

**Gwellhad buan**

Treuliodd Merfyn Hughes, Trawsnant, rai dyddiau yn Ysbyty Bron-glais ac Ysbyty Treforys yn ddiweddar. Da gallu dweud ei fod yn teimlo lawer yn well erbyn hyn.

Dymuniadau gorau i ti Merfyn.

# MADOG

**Suliau Madog**

2.00
Ebrill
29 Nicholas Bee

Mai
6 John Owen
13 Cymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont
20 Bugail
27 Elfed ap Nefydd Roberts

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Catherine Thomas, Brynheulog, sydd wedi derbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais.

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus a dymuniadau gorau i Arthur Hughes, Lluest Fach, a fydd yn dathlu ei ben blwydd yn 70 oed ar y 29ain o Ebrill.

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Colled**

Bu y mis olaf yn un trist iawn i'r ardal yma a thu hwnt gan i ni golli cymeriad unigryw iawn, Hywel Ellis, Hywelfan. Brodor o Bow Street oedd Hywel ond 'roedd wedi byw yng Nghwmrheidol am y rhan fwyaf o'i oes. Siom fawr iawn oedd ei golli gan iddo ymladd yn ddewr yn erbyn ei afiechyd am bron i flwyddyn gan wynebu yr holl driniaethau yn ffyddiog iawn y byddai yn holliach yn y diwedd. Cofir am Hywel fel person caredig iawn, bob amser yn barod iawn ei gymwynas ac yn gymydog heb ei ail. Peiriannau oedd ei brif ddiddordeb ac mae hôl ei waith i weld ar hyd a lled yr ardal. Pan fyddai yn y Siop yn Aberystwyth 'roedd bob amser yn groesawgar ac yma eto yn barod i chwilio yn ddyfal am ofynion y cwsmeriaid. Byddai amal i fyfyriwr wedi gorfod cysgu ar y stryd heblaw am ddawn Hywel i ddatgloi y drws! 'Roedd yn gefnogol iawn i bob agwedd o fywyd yng Nghwmrheidol a gwelir ei eisiau yn fawr iawn ond yn Hywelfan a Caehaidd mae y golled ar ei gwaethaf. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Ann, Gerwyn, Rhian Eurgain a Anthony, ac mae ei meddyliau ni i gyd gyda ei fam yng nghyfraith Eirlys Davies, Caehaidd, a'r teulu i gyd.

**Merched y Wawr Melindwr**

Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yn y Maes yng Nghapel Bangor. Cawsom groeso cynnes iawn gan y staff ac ar ôl mwynhau cawl a tharten flasus iawn cawsom ein diddanu gan Sophie Rudge o Lanbadarn. Estynnodd Liz Collison groeso cynnes iawn i Sophie a chawsom ganddi amrywiaeth o glasuron Cymraeg ar y delyn. Noson ddelfrydol i ddathlu Gŵyl Ddewi.
Nos Fawrth 3edd o Ebrill 'roedd Neuadd Pen-llwyn yn llawn o aelodau Merched y Wawr o nifer o ganghennau cyfagos. Ein siaradwr gwadd oedd Euros Lewis o ardal Felin-fach a chawsom ganddo hanes yr ymfudo o Fynydd Epynt. 'Roedd Euros yn medru dweud yr hanes yn fyw iawn wrthym ac 'roedd llawer o'r hanesion yn ddirdynnol iawn. Mwynhawyd gwledd o swper cyn troi am adref. Talwyd y diolchiadau gan Delyth Davies, Maencrannog.

# DOLAU

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Euryl a Bethan Rees, Maes Crugiau, ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, Llewelyn Hedd. Mae Alun a Margaret, Seintwar wedi gwirioni ar eu hwyr bach.

**Cofion**

Mae pawb yn y Dolau yn danfon eu cofion cynnes i Mrs Nest Davies, Nantgwyn, sydd yn Ysbyty Tregaron ers rai wythnosau.

ytincer@googlemail.com

# PENRHYN-COCH

**Suliau**

**Horeb**
**Ebrill**
**29** 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog

Mai
**6** 2.30 Oedfa gymun Gweinidog
**13** Cymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont
**20** 2.30 Oedfa bregeth Gweinidog
**27** 10.30 Oedfa bregeth Gweinidog Bethel, Aberystwyth yn cyd-addoli

**Salem**
Mai
**6** 2.00 Y Parchedig Richard H Lewis, Cymundeb
**13** Cymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont

**Marwolaeth**

Ar Fawrth 18 yng nghartref Abermad bu farw Isabella (Isa) Davies, gynt o 49 Ger-y-llan - gweddw y diweddar David Davies. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth dydd Iau 22 Mawrth.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn â Gillian Dobson a'r teulu, Cae Mawr a Meinir Hurford a'r teulu, Dôl Helyg ar farwolaeth cefnder ac ewythr - Emlyn Jones, Talgarreg yng Nghartref Abermad fore Sul y Pasg.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Sarah a Jason Thomas, Llwynhelyg, ar enedigaeth merch - Amelia Dwynwen Nansi Thomas ar Ebrill 11eg; chwaer fach i Holly, Charles ac Eifion.

**Pen blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Alun John, Ger-y-llan, a ddathlodd ben blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Ysbyty**

Da clywed fod Gwyneira Evans, Yr Efail adref o Ysbyty Bron-glais. Gobeithio eich bod yn cryfhau.

**Diolch**

Dymuna Mona Edwards, Hafod, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar ôl triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd am y llu cardiau, galwadau ffôn ac ymewlwyr. Llawer o ddiolch.

**Cylch Meithrin Trefeurig**

Bu Cylch Meithrin Trefeurig ar ymweliad i fferm Pen-banc yn ddiweddar. Mwynhaodd y plant weld yr ŵyn bach yn y tywydd braf. Diolch yn fawr iawn i Alan a Shan am ein croesawu ni yn ystod adeg mor brysur. Hefyd bu y plant yn gwylio perfformiad yng Nghanolfan y Celfyddydau fel rhan o'r ŵyl Agor Drysau. Roedd y perfformwyr yn creu cerddoriaeth gan ddefnyddio gwrthrychau o fyd natur, ac yn dilyn y profiad yma aeth y plant am dro yn y goedwig i ddarganfod gwrthrychau eu hunain.

Braf oedd gweld nifer o rieni yn ymuno â ni yn Ysgol Penrhyn-coch i gymryd rhan yn y sesiynau Rhif a Chwarae y tymor yma. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

**Gwellhad buan**

Dymunwn wellhad buan i Phyllis Dixon, Ger-y-llan, a fu mewn damwain yn ddiweddar a gorfod cael triniaeth yn yr ysbyty. Hefyd ei ffrindiau oedd yn digwydd bod yn yr un ddamwain yn ymyl Ger-y-llan yn ddiweddar.

Hefyd gwellhad buan i Elis y Garej, Tymawr, ar ôl bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Debra ac Andy, a dymuniadau da ar achlysur eu priodas yn ddiweddar, oddi wrth y teulu oll.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**

Nos Iau'r 8fed o Fawrth croesodd ein Llywydd, Judith Morris, bawb i'r cyfarfod. Yna gwnaed trafod y busnes arferol o fynd trwy'r ohebiaeth ac yn y blaen, a ddaeth i law yn ystod y mis. Yna fe groesawodd ein Llywydd ein gŵr gwadd am y noson, sef Gerald Morgan, Tregaron, sydd yn adnabyddus fel dramodydd ac yn gwybod pob agwedd o waith ddrama. Ac wedi ysgrifennu dramâu ac fel cyn-athro drama mewn ysgolion. Mae'n gwybod ei waith yn drylwyr. Rhan o'r noson gyda ni oedd cael tair o'r merched sef Sue Hughes, Mair Evans a Glenys Morgan i actio allan drama oedd wedi ei hysgrifennu gogyfer





Caryl Parry Jones yn annerch cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn





Debra ac Andy

â Merched y Wawr er cof am un o aelodau Merched y Wawr Tregaron. Mae ar hyn o bryd felly yn mynd o amgylch gwahanol fudiadau yn dysgu'r ddrama hon. Treuliwyd noson hapus iawn yn ei gwmni. Diolchwyd iddo ac fe ddiweddwyd y noson gyda chwpanaid a thynnu'r raffl fisol. Noson wych arall.

**Sioe Penrhyn-coch**

Cynhaliwyd cinio blynyddol Sioe Penrhyn-coch yn ddiweddar yn y Maes, Capel Bangor. Treuliwyd noson hapus yng nghwmni ffrindiau gyda Llywyddion y sioe llynedd, Eleanor a Selwyn. Diolchwyd i bawb fel arfer am eu gwaith gan Dai Rees Morgan, Cadeirydd y Sioe, ac yn arbennig i Ann James, yr ysgrifennydd am ei gwaith caled hi. Hefyd i'r Maes am y bwyd ardderchog a gafwyd. Ategwyd hyn gan Mairwen eto fel arfer yn ei dull arferol. Noson wych unwaith eto.

**Pen blwydd**

Pen blwydd hapus iawn i Carina Stephens, 10 Glanseilo ar ei phen blwydd arbennig ar y 25 o Ebrill, oddi wrth bawb o'r teulu.

**Tymor ym Mrwsel**

Dymuniadau gorau i Einion Dafydd, Rhandir, sydd ym Mrwsel am dri mis yn cyfweld Aelodau Senedd Ewrop ar gyfer ei draethawd ymchwil.

**Neuadd y Penrhyn**

Braf yw cael adrodd bod y gwaith adnewyddu ar y Neuadd yn symud ymlaen yn hwylus.Mae`r rhan cyntaf o'r gwaith - sef y to, ffenestri a drysau newydd ynghyd â pheintio y waliau y tu allan wedi ei cwblhau. Ar ôl yr Eisteddfod bydd y gwaith ar ail ran y cynllun yn dechrau, sef estyniad a fydd yn cynnwys toiledau a chegin newydd yn ogystal â mynedfa newydd. I gwblhau y prosiect bydd nenfwd newydd yn cael ei gosod ac hefyd bydd y maes parcio yn cael ei darmacio. Rydym yn anelu i gwblhau yr holl waith erbyn dechrau Awst.

Brian Thomas.



**Tri lwcus**

Dyma dri lleol gafodd brofiadau arbennig iawn y mis diwethaf. Dewiswyd Jordan Lloyd Jones,. Bow Street, Zoe Evans, Penrhiwnewydd a Sion Wyn Hurford, Penrhyn-coch yn dri o 84 aelod Only Kids Aloud.

Yn ol Siôn ' Yn gynnar bore dydd Iau 22ain o Fawrth, roedd Only Kids Aloud wedi cychwyn ar y daith i Rwsia i ganu 8fed Symffoni Mahler yn St Petersburg gyda'r arweinydd enwog Valery Gergiev. 'Roedd pawb o OKA yn meddwl fod Valery Gergiev yn strict iawn ond 'toedd o ddim - roedd yn ddyn neis iawn. Roedd y gwesty yn neis iawn ond nid oedd y bwyd mor neis - ar wahân i'r sglodion!

Nid oedd Zoe yn hoff o'r bwyd chwaith - ac yn cael eu sosejys yn wahanol iawn!

Roedd Jordan yn ei chael y tywydd yn oer - ar y dydd Sadwrn roedd hi yn bwrw eira yna ac roedd pawb eisiau chwarae yn yr eira. Ond roedd yn bynnes yn y llety.

Siôn: 'Un noson roeddyn ni wedi mynd i sioe mewn palas crand - roedd yna ganu a lot fawr o ddawnsio yno.

Ar y ffordd adre roedd fy ngrŵp i wedi hedfan mewn awyren fach o St. Petersburg i Mosgo a wedyn o Mosgo i Heathrow. Roedd yr awyren yn fawr iawn â theledu i bawb i edrych arno.

Nes i joio yn fawr iawn a gobeithiaf gael canu eto gyda OKA.'

Y bwrw Sul ar ôl canu yn Theatr Marrinsky roedd cyngerdd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd - a'r un y ffurfiwyd y côr yn wreiddiol ar ei gyfer. O flaen cynulleidfa o 2,000 o bobl perfformiwyd eto 8fed symffoni Mahler - symffoni sydd mor fawr fe'i hadnabyddir gan yr enw 'Symffoni i Fil' - gyda 120 aelod Corws Cenedlaethol Cymreig y BBC a cherddorfa o 90, 8 unawdydd a 60 aelod o gorws byd-enwog Theatr Mariinsky o Rwsia. Ac yn goron ar y cyfan, yn arwain y cynhyrchiad roedd y maestro Valery Gergiev, un o'r arweinyddion amlycaf ac uchaf ei barch yn y byd. Profiad bythgofiadwy!

# GOGINAN

**Dymuniadau Gorau**

Pob lwc i Steven Jones. Hafan. Cwmbrwyno, wrth iddo ddechrau ei ddyletswydd yn Afghanistan am chwe mis.

**Pen blwydd Hapus**

Pen blwydd hapus i Mrs Jane Jones, Y Bwthyn, Cwmbrwyno a ddathlodd ei phen blwydd yn nawdeg ar Fawrth 30. Hefyd i Tim Griffiths, Welsh Cottage sydd â sawl degawd i'w dal i fyny!!

Annwyl Olygydd,

Rwy'n ysgrifennu i annog eich darllenwyr i ddathlu bod ein llwybr newydd gwych, sef Llwybr Arfordir Cymru Gyfan yn cael ei agor, a hynny drwy gymryd rhan yn un o'r nifer o deithiau cerdded sydd wedi'u trefnu ar benwythnos cyntaf y llwybr ar 5/6 Mai.

Am y tro cyntaf erioed, mae llwybr di-dor bellach yn dilyn yr arfordir cyfan, gan ymestyn am 870 milltir o Gas-gwent yn Aber Hafren i'r Fferi Isaf yng Nghilgwri. Gallwch ddewis un o ddwsinau o deithiau cerdded wedi'u trefnu sy'n digwydd y penwythnos hwnnw drwy edrych ar wefan Ramblers Cymru.

Ond wrth gynllunio eich taith, cofiwch fod o leiaf 250 o bobl yng Nghymru sydd â diabetes am bob milltir o'r arfordir hwnnw. Mae diabetes yn gyflwr sy'n para am oes, yn gyflwr difrifol sy'n gallu achosi anabledd. Diabetes UK Cymru yw'r unig elusen yng Nghymru sy'n gofalu am bob un sydd â diabetes a'u teuluoedd, gan ymgysylltu â nhw ac ymgyrchu drostynt. Gallech chi wneud i'r diwrnod fod hyd yn oed yn fwy arbennig drwy godi arian i ni wrth fwynhau golygfeydd ysblennydd yr arfordir. Os ydych chi eisiau gwneud hyn, cysylltwch â Joseph Cuff ar 029 20668276 neu drwy joseph.cuff@diabetes.org.uk

Mae nifer o bobl yn cerdded i godi arian i ni oherwydd bod ganddyn nhw aelodau o'r teulu sydd â diabetes neu er cof am rywun arbennig y byrhaodd y cyflwr ei b/fywyd. Ond mae rheswm da a syml arall dros gerdded llwybr yr arfordir – mynd am dro yn yr awyr agored yw un o'r ffyrdd gorau o gadw'n iach, gostwng eich pwysau gwaed, colli pwysau a theimlo'n dda. Ac mae hynny'n berthnasol i ni i gyd – gyda diabetes neu hebddo!

Yn gywir,

Dai Williams, Cyfarwyddwr
Diabetes UK Cymru
Castlebridge
Cowbridge Road East
Caerdydd
CF11 9AB

# EISTEDDFOD PENRHYN-COCH

## Llwybrau

Ymweant yn driphlith draphlith
drwy grawcwellt y bronnydd;
labrynth bythol y llechweddau,
a ysgythrwyd ar wyneb y tir
gan esgidiau a charnau'r gorffennol.

Yn oes yr hamddena mawr,
amlhaodd y tramwyo
ar grib ac esgair.
Anharddwyd gwedd y mynydd,
a throes y creithiau
yn archollion dyfnion.
Rhwygodd y gwadnau geirwon
drwy'r cnawd bregus,
a llifodd y crawn ymaith
yn ffrydiau rhuddgoch.

Ar ystlys y Corn Du,
mae meddygon ymroddedig
y Parc Cenedlaethol
yn ymgeleddu'r claf.
Palmantu'r ffordd i'r copa,
faen wrth faen,
a'r ffug-lwybr yn pwytho'r briw.
Darnau o rwyd a ffens
yn wastad fel plastar
ar y pridd datrgeledig,
yn cymell tyfiant newydd.

Ninnau,
o frwydrau ein bywydau gorffwyll,
enciliwn i'r mynyddoedd ,
fry i hedd unigeddau,
fel yr hen dywysogion gynt;
ac ar lwybrau dihangfa
cawn eto brofi blas y pridd.

Cribyn (John Meurig Edwards,
Aberhonddu)





Llywyddion - Sara Evans (nos Wener), Mary Thomas (Pnawn Sadwrn), Alwyn Hughes (Nos Sadwrn)



Beirniaid nos Wener - Lowri Steffan (llefaru) ac Elin Mair (cerddoriaeth)



Beirniaid dydd Sadwrn - Dorothy Jones (llenyddiaeth a llefaru) a Helen Wyn (cerddoriaeth) ddaeth ar fyr rybudd yn lle'r beirniad fethodd ddod

Yn frodor o Bont-rhyd-y-groes, Ceredigion, cafodd John Meurig Edwards ei addysg yn Ysgol Uwchradd Tregaron cyn mynd i Goleg y Drindod Caerfyrddin. Ar ôl dysgu yn Nghaerdydd am chwe blynedd bu am un mlynedd ar ddeg yn athro yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu gan orffen ei yrfa fel prifathro Ysgol y Bannau - ysgol gynradd Gymraeg Aberhonddu. Mae ei enw yn britho canlyniadau eisteddfodau Cymru lleol a chenedlaethol ac enillodd goron Eisteddfod Gadeiriol Môn 2011 a gynhaliwyd ym Mryngwran.

Cerdd benrhydd wedi ei saernïo'n lân; ei iaith yn bleser ei darllen. Ceir yma gynildeb ond er hyn mae'n llwyddo i greu darluniau. Gresynu y mae o weld fel mae'r holl dramwyo wedi malurio wyneb y tir. Mae'n cymharu wyneb y mynydd â pherson wedi ei glwyfo. Yna daw aelodau'r Parc Cenedlaethol fel meddygon i drwsio'r llwybrau. Ceir rhyw islais o gydymdeimlad gyda'r mynydd gan ei fod yn rhan o etifeddiaeth y bardd. Cerdd gynnil a llawn gobaith.
Dorothy Jones, Llan-gwm



Oisín yn llefaru

# EISTEDDFOD PENRHYN-COCH

## Portread: aelod o'r teulu

Bugail ar fferm Nannau, Llanfachreth ydi Medwyn Llewelyn Evans ers tri deg dau o flynyddoedd bellach, credai 'Med' nad oes neb yn ei adnabod "sut ma' nhw'n gwbo pwy dwi? Fyddai byth yn mynd i'r dre' felltith na!" Ond yn anffodus i Medwyn, mae llawer yn ei adnabod am ei allu i redeg cŵn defaid, gyda'i enw yn ymddangos yn rheolaidd yn y papur newydd am ennill ambell i dreialon cŵn defaid. Ond hefyd, mae ambell i berson ei adnabod oherwydd ei bersonoliaeth 'arbennig'.

Wedi gwisgo fel bugail nodweddiadol cyffredin mae Medwyn bob amser, gyda'i gyllell boced gerllaw, a phaced o wm cnoi yn ei boced. Bob gwanwyn mae 'rubber rings' oren yn gorlenwi ei bocedi, sy'n achosi ffrae bob tro mae Helen yn rhoi ei ddillad yn y 'wash'. Er bod Medwyn i weld yn ddyn caled ar yr wyneb, a byth yn dangos ei werthfawrogiad o'i wraig (Helen) mae'n amlwg i berson dall ei fod yn diolch i'r drefn am gael 'tendars' mor dda, ac o bryd i'w gilydd, mae'n 'tritio' Helen am wylia, neu yn dod ag anrheg bob hyn a hyn wrth iddo drafeilio'r wlad yn cystadlu mewn treialon cŵn defaid.

"Efo cŵn dwi'n teimlo fwya cyfforddus, dani'n dallt ein gilydd yn iawn sdi" dyna linell sy'n gyfarwydd i bawb sy'n adnabod Med. Dyn ei filltir sgwâr ydi Medwyn, ac mae'n casàu yr adegau pan mae Helen yn ei rybuddio "Dani angan mynd i siopa rwbryd Medwyn, dani angan bwrdd a chadeira newydd yn tŷ ma ers blynyddoedd." Mae Medwyn yn mynd i'r dre (Dolgellau) yn achlysurol, ond dim ond, i'r siop gwerthu nwyddau anifeiliaid i nôl bwyd i'r anifeiliaid, neu i lenwi ei 'bic up' gyda thanwydd yn y garej. Brawddeg sy'n cael ei ddweud yn aml gan Medwyn pan mae'n hiraethu am ei gartref a'i gŵn defaid ydi "Peth gora am fynd i rwla ydi cal dod adra", a "Reit bois, dewch i ni gael mynd adra".

Er ei fod i weld yn eithaf distaw a swil ymysg pobl ddieithr, mae ganddo gymeriad lliwgar iawn unwaith y dewch i'w adnabod. Mae pawb yn ei adnabod fel dipyn o 'brancsdar' a phob tro mae rhywbeth yn mynd o'i le, mae pawb yn troi i edrych os ydi Med wedi bod yn gwneud ei driciau unwaith eto. Mae'n hoff iawn o dynnu coes, a phan mae o'n chwerthin, mae'n chwerthin o'r galon gan wneud sŵn tebyg i 'hyena' swnllyd.

Yn ôl Margaret ei fam, roedd 'Med bach' yn hogyn da yn ystod ei blentyndod, er yn un direidus. Dynas 'strêt' ydi Margaret, a bu'n aml yn goro rhoi ei 'nymbar wan syn' yn ei le. Hanes sy'n cael ei adrodd yn aml gan y ddau ydi'r adeg pan oedd Margaret yn dweud y drefn, rhedodd Med allan o'r tŷ, i fuarth y fferm ac i mewn i ganol dail poethion yn ei 'jins' cyn gweiddi "Haha, ellwch chi ddim fy nal i rwan!!"

Gan fod Medwyn yn cael plesar o weld ei fam yn gwylltio, pan oedd yn ei ugeiniau cynar, aeth i ffair Cricieth un noson, a daeth ar draws stondin a oedd yn gwerthu baw plastig. Bore tranoeth, roedd Med yn gorwedd yn ei wely, yn aros am ymateb ei fam pan welai y baw ar lawr y toiled, gyda phapur toiled drosto! "GEITH O GLIRIO'R LLANAST MA'I HUN! Y DIAWL BACH."

Hen gastiau felly sydd gan rhen Med bob amser, neu 'Mad Med' yn ôl ei ddarpar fab yng nghyfraith a'i ffrindiau!

Gallaf ddweud fy mod yn adnabod Medwyn yn dda iawn. Rwyf wedi bod yn cyd-weithio efo Medwyn yn ystod amser ŵyn bach am dipyn o dymhorau bellach, a gallaf ddweud bod ganddo dempar fel 'matsen'. Mae o'n siarad yn iawn un munud, a'r munud nesa' ma o'n wyllt fel cacwn am ryw reswm neu'i gilydd, boed oen yn ceisio dianc, neu ddafad yn gwrthod cyd-weithredu, neu ei gyfaill y ci defaid yn gwrthod gwrando ar ei fistar. Er ein bod wedi cael aml i ffrae gyda iaith liwgar, rwyf yn mwynhau cael helpu yn ystod y tymor prysur bob blwyddyn, a dysgu ambell i beth newydd sy'n ddiddorol tu hwnt.

Does gan Medwyn ddim llawer o fynedd, a dyna sut yr etifeddodd y llysenw 'short fuse'. Un diwrnod glawog, roeddem yn mynd o amgylch y defaid a'r ŵyn ar ein 'rownds' dyddiol, ac roedd un oen yn gwisgo croen oen arall am ei fod wedi cael ei 'fabwysiadu' gan ddafad arall. Gwaeddod Med "Awel, dos i dynu croen oddi ar yr oen 'na plis" rhedais ar ôl yr oen, ond gan fod y croen gydag arogl fel ŵy drwg, doeddwn ddim am drio rhy galed i gael y croen i ffwrdd, felly gofynnais i Medwyn wneud i mi. Gan fod Medwyn yn benderfynol o'm cael i allu wneud popeth drostaf fy hun, tynnodd y croen i ffwrdd a'i daflu arnaf. Roedd y 'sleim' melyn ar hyd fy nhalcen! Gwylltiais yn gacwn , a dechrau rhedeg ar ôl Medwyn a oedd wedi hen ddiflannu ar gefn y beic pedair olwyn! Wrth edrych yn ôl, rwyf yn gweld yr ochr ddoniol o'r holl ffraeo, a'r holl bethau sydd wedi mynd o'i le neu fel mae Medwyn yn eu galw - 'snags'.

Er nad ydi Medwyn yn rhy hoff o gymdeithasu, mae o'n hoff iawn o gael mynd ar ddydd Sadwrn i weld ei 'fets cŵn ' tra yn cystadlu yn y treialon cŵn defaid. Mae Medwyn wedi cael llawer o lwyddiant yn y maes, ac wedi cael yr anrhydedd o fod yn bencampwr Cymru ym mil naw naw wyth gyda Lad. Lad oedd ei gi gora', ac roedd y ddau fel cysgod ac enaid, yn dallt ei gilydd i'r dim. Os oedd hwyliau drwg ar Medwyn, roedd Lad yn gwybod i gadw draw, neu i wneud ei orau glas ar y cae. Roedd cael mwythau gan Medwyn a chael ei ganmol ganddo yn gwneud diwrnod Lad. Medwyn oedd arwr Lad. Oherwydd i Lad gael ei weithio mor galed yn ystod ei 'ddyddiau aur' bu'n rhaid iddo roi'r gorau i drin y defaid, a chael symud i Borthmadog i gael gwell chwarae teg efo Margaret ac Ellis (rhieni Medwyn). Yn anffodus, bu farw Lad ychydig o ddyddiau cyn Nadolig yn nwy fil ac wyth. Un cysur i Medwyn, oedd nad oedd o'n gorfod gweld ei ffrind yn dioddef.

Englyn a gafodd ei ysgrifennu i Medwyn ar gyfer ei ben blwydd yn hanner cant oed, sy'n sôn am ei gampau gyda'r cŵn defaid yw hwn :

'Dawn Medwyn sy'n ein swyno - ar y cae
Efo'r cŵn diguro,
Hwn ddaeth yn rhwydd o weithio
Â'i braidd, yn bencampwr bro.'

**Morris Evans**

Gallaf ysgrifennu straeon a straeon am hanes Medwyn, rwy'n meddwl weithia' fy mod yn adnabod Med yn well na mae o'n adnabod ei hun. "Sut oti'n gwbod hyna wan Awel" a byddaf innau yn ateb "dwi'n nabod chdi reit dda erbyn wan sdi Dad".

Er bod Dad a minnau yn ffraeo o bryd i'w gilydd, ac er ei fod yn anodd ei goelio weithiau, mae gen i feddwl mawr o Dad. Mae Dad yn dweud yn aml "Os mêts, mêts" gan roi winc, a gwenu fel giât.
Awel Pyrs Evans

Yn ol y beirniad Dorothy Jones, Llan-gwm, 'Calondid mawr i mi oedd derbyn saith ymgais - a phob un ohonynt o safon uchel! Maent i gyd yn wastad a chyfartal iawn - synnwn i ddim nad oes amryw ohonynt wedi dod o'r un stabl - yr arddull, safon yr iaith a naturioldeb y gwaith i'w ganmol yn fawr. Diolch i pwy bynnag sydd yn mentora'r gwaith ac yn annog y bobl ifanc i gystadlu. Daliwch ati - mae deunydd llenorion yma!

Yn fuddugol mae Catrin Jên gyda portread o'i thad. Pleser fu darllen yr iaith lithrig a'r hanes naturiol a bywiog"

Enillydd Tlws yr Ifanc eleni oedd Awel Evans o Lanfachreth, Dolgellau. Mae Awel ar hyn o bryd yn fyfyrwraig ail flwyddyn yng Ngholeg Meirion Dwyfor, Dolgellau yn astudio Cymraeg, Hanes a Seicoleg. Roedd yn ddiolchgar i'w rhieni ac i'w hathrawes Gymraeg, Fflur Roberts, am roi arweiniad a chymorth iddo. Dywed mae ei phrif ddiddordebau ydy cymdeithasu, nofio a phêl-rwyd. Mae'n byw ar fferm Maes Eog ac felly yn rhoi cymorth gyda'r gwaith. Fe'i gwelwyd ar fwy nag un achlysur yn ennill nifer o wobrau am ysgrifennu mewn Eisteddfodau Lleol. Mae wedi derbyn Ysgoloriaeth i Brifysgol Bangor i Astudio Addysg Gynradd a'i gôl ydy graddio fel athrawes.

# EISTEDDFOD PENRHYN-COCH



Aelodau Cylch Meithrin Trefeurig yn cystadlu nos Wener

## Methu cysgu

Ar 'y myw, drwy'r oriau mân - daeth hyrdi
gyrdi fel rhyw burdan.
Ac enw'r gŵr oedd â'r gân?
'Rargol - Brian yr Organ!

Pharo (Anwen Pierce, Bow Street)

Englyn cywir ei saernïaeth. Mae Brian yr Organ druan wedi gwneud enw iddo'i hun yn ddiarwybod braidd yn tydi! Mae'r englyn hwn ddigon slic a phopeth wedi'i ddweud yn dwt. Da iawn.

**Dorothy Jones**



Morgan yn gwneud ei hun yn gyffyrddus cyn cystadlu



Brawd a chwaer dawnus - cafodd Connor gyntaf am lefaru blwyddyn 1 a 2 a Molly gyntaf am ganu a llefaru Meithrin.



Tomos yn cystadlu ar yr unawd



Carwyn yn gartrefol ar lwyfan y bu tad-cu - Dai Rees Morgan - yn sefyll oriau arno!



"Cusan slei - does neb yn edrych!" Mairwen Jones yn llongyfarch y bardd buddugol

Am ganlyniadau llawn yr Eisteddfod gweler
**http://www.trefeurig.org/**



Parti llefaru Ysgol Penrhyn-coch

*Lluniau i'w mwynhau*
*Darluniau Gwreiddiol*
OrielWynMel
ARDDANGOSFA
orielwynmel
MORLAN, ABER
Mai 1 -31
www.orielwynmel.co.uk

# Cario'r Ffagl Olympaidd

Bydd chwech o'r ardal ymhlith yr 8,000 ffodus gaiff gario y Ffagl Olympaidd wrth iddi ddod ar daith trwy Geredigion ar Fai 27 a 28.

Mai 27

**Jacqueline Minchin,** (35 oed) Bow Street (o Benrhyn-coch yn wreiddiol) - cario yn Llanarth. Gwelir hi yma pan gynrychiolodd Gymru yn yr Olympics Arbennig.

**Clint Middleton,** (29 oed) Aberystwyth (ond o Bow Street) - cario yn Aberaeron. Fe'i dewiswyd am iddo drefnu y daith feics noddedig 10 diwrnod o Fryste i Barcelona y llynedd (gweler clawr Tincer Mehefin 2011) lle codwyd dros £13,000 i Apêl Elain. Fe greodd y digwyddiad ymwybyddiaeth o'r elusen gan ysgogi llawer i gymryd rhan yn yr ymgyrch.

**Derfel Reynolds** (22 oed) Penrhyn-coch - cario yn Llan-non. Enwebwyd gan Gemma Cutter, Cyd-lynydd Chwaraeon Anabl Cyngor Sir Ceredigion am ei waith hyfforddi gyda'r anabl o fewn y sir. Mae'n hyfforddi athletau yn wythnosol a Boccia yn fisol. (Mae Boccia yn gamp baralympaidd ar gyfer athletwyr gydag anabledd. Mae'n gamp pêl darged yn perthyn i'r un teulu a petanque a bowlio.)

Symudodd **William Williams** (68 oed) a'i wraig Catherine o Gapel Dewi i Cheltenham ychydig fisoedd nôl. Yn frodor o Fron-nant fe'i enwebwyd ef gan Glwb Rotari Aberystwyth ; mae'n dioddef o glefyd anghyffredin - Primary Sclerosing Cholangitis (PSC), yn redwr profiadol ers dyddiau ysgol ac er gwaethaf y salwch mae wedi rhedeg y 10k bum gwaith gan gefnogi sawl elusen.

28 Mai

**Anne Rees-Pritchard,** (16 oed) Bow Street - un o dri fydd yn ei chario trwy Bow Street. Y ddau arall fydd Andy Buckley (28 oed) o Aberystwyth a Carian Scudamore (18 oed) o Aberteifi/

**Danielle Pryce** (19) Y Borth - cario drwy Dal-y-bont am naw o'r gloch ar y dydd Llun. Mae Danielle newydd ddechrau ar swydd newydd fel Gweithiwr Ieuenctid dan Hyfforddiant i Gyngor Ceredigion.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 22 Chwefror 2012, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd saith aelod arall yn bresennol ynghyd â'r clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Daniel Jones, Kari Walker, Tegwyn Lewis a'r Cyng. Dai Suter.

Penderfynwyd cysylltu ag Adran Gynllunio Ceredigion i ofyn iddynt ymweld â'r safle ar Ffordd Penyberth, Penrhyn-coch lle'r oedd sied a charafán i weld a oedd y perchnogion yn cadw at amodau y caniatâd cynllunio. Daethai neges gan Dai Suter ei fod yn bwriadu gwahodd swyddog o'r Cyngor Sir i ddod i weld cyflwr y ffordd i Salem, ac fe fyddai'n dda petai rhai o'r trigolion lleol yno hefyd. Gofynnwyd i'r Clerc gael pris ar gyfer trin y sedd yn y caban bws ger y Post. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am gael clirio'r cwteri ym Mhenrhyn-coch, gan fod dŵr yn gorlifo'n aml mewn mannau.

Ceisiadau cynllunio: tŷ ger Trysor, Cefn-llwyd – dim gwrthwynebiad; estyniad i Sŵn-y-nant, 1 Penyberth, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad.

Adroddodd Trefor Davies am gyfarfodydd o Grŵp Datblygu Ysgol Trefeurig. Yn anffodus roedd y Grŵp newydd glywed nad oeddynt wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais am arian Loteri; bwriedid cynnal cyfarfod yn fuan i drafod sut i symud ymlaen.

Trafodwyd ceisiadau am gymorth ariannol gan wahanol gyrff a chymdeithasau a phenderfynwyd cyfrannu fel a ganlyn: Grŵp Datblygu Hen Ysgol Trefeurig £250; Clwb Dros 60 Trefeurig £150; Cae Chwarae Pen-bont £250; Brownies Penrhyn-coch £100; Eisteddfod Penrhyn-coch £250; Cae Chwarae Penrhyn (PATRASA) £250; Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch £400; Cylch Meithrin Trefeurig £150; Neuadd y Penrhyn £750; Y Tincer £250; Cyfeillion Tregerddan £250; Ambiwlans Awyr Cymru £300.

Roedd Mr Philip Stone, Dolwen, Penrhyn-coch yn bresennol a gofynnodd am gyfle i holi rhai cwestiynau am agwedd y Cyngor at y Cynllun Datblygu Lleol. Yn benodol roedd am gael gwybod a oedd y Cyngor yn bwriadu rhoi tystiolaeth lafar yng ngwrandawiad y CDLl; a oedd y Cyngor yn glynu at eu sylwadau, yn enwedig y rhai perthynol i'r cae nesaf at Ger-y-llan; ac a oedd y Cyngor yn bwriadu ymgynghori cyn rhoi tystiolaeth i'r gwrandawiad. Fe ddywedwyd wrtho y byddai'r Cyngor yn rhoi tystiolaeth yn y gwrandawiad; eglurwyd beth oedd rhesymau'r Cyngor dros yr ymateb ysgrifenedig a anfonwyd i'r Cyngor Sir; ac fe ddywedwyd y byddai cynrychiolwyr o'r Cyngor yn fodlon cyfarfod unrhyw drigolion o'r pentref oedd yn poeni am agwedd y Cyngor.

Nodwyd y dylai aelod o'r cyhoedd a oedd y dymuno dod i gyfarfod i godi rhyw fater roi rhybudd i'r Cadeirydd neu'r Clerc ymlaen llaw. Yna fe ellid trafod y mater hwnnw ar ddiwedd y cyfarfod.


Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 20 Mawrth 2012, yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd saith aelod arall yn bresennol ynghyd â'r Clerc a'r Cyng. Dai Suter. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Kari Walker, Gwennan Price a Melfyn Evans.


Roedd y Cyngor Sir wedi anfon i ddweud y byddai swyddog o'r Adran Gynllunio yn ymweld â'r safle ar ffordd Penyberth cyn diwedd mis Mawrth. Roedd y Clerc wedi cael pris o £145 ar gyfer darparu a gosod sedd newydd ar gyfer y caban bws wrth y Post. Cytunwyd i hyn a phwyswyd am i'r gwaith gael ei wneud gynted ag y byddai modd.

Cais cynllunio: estyniad yn 4 Garn Wen, Penrhyn-coch – dim gwrthwynebiad.

Adroddodd Trefor Davies ei fod wedi bod yng nghyfarfod blynyddol Pwyllgor Cae Chwarae Pen-bont. Roedd Richard Owen wedi bod mewn cyfarfod cyhoeddus yn Hen Ysgol Trefeurig lle trafodwyd sut i symud ymlaen yng ngoleuni'r ffaith nad oedd y cais am arian loteri wedi bod yn llwyddiannus. Roedd y Grŵp Datblygu yn mynd i archwilio gwahanol bosibiliadau gan gynnwys y posibilrwydd o godi man cyfarfod newydd. Roedd Richard Owen hefyd wedi bod mewn cyfarfod yn Aberaeron lle'r oedd y trefniadau ar gyfer gwrandawiadau'r Cynllun Datblygu Lleol wedi cael eu hegluro.

Roedd rhai wedi cwyno fod ambell un o'r bysiau lleol yn cael eu gyrru'n rhy gyflym drwy Benrhyn-coch. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc godi'r mater gyda'r perchennog. Adroddodd Mervyn Hughes am ddamwain a oedd wedi digwydd gyda'r nos ar y ffordd fawr ger y fynedfa i Ger-y-llan, damwain a allai fod wedi bod yn ddifrifol iawn. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a fyddent yn ystyried gosod golau ychwanegol yno.






Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 29 Mawrth yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Gynghorwraig Heulwen Morgan. Anfonwyd ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r Cyng. Owain Morgan sydd mewn anhwylder iechyd ar hyn o bryd. Cydymdeimlad â'r Cyng. Rob Pugh sydd wedi colli ei fam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor presennol gan fod y tymor (o bedair blynedd) yn dirwyn i ben ar ddiwedd y mis. Felly ni fydd cyfarfod y mis hwn (Ebrill) oherwydd byddai unrhyw benderfyniad a wnaed yn ddi-rym. Ar yr 17eg o Fai bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor newydd.

Mae perygl y bydd enw newydd yn cael ei roi ar ffordd Nantafallen-Pen-rhiw-Pen-y-garn yn o fuan, sef "Macdonalds Way" – ac nid ar ôl y bardd nofelydd enwog Tom Macdonald, ond oherwydd y cynnydd o sbwriel a deflir o gerbydau â'u perchnogion wedi mynychu'r bwyty enwog ar stad Parc y Llyn. Barn y Cyngor oedd y dylai Macdonalds dalu am glirio eu pecynnau gwag ar hyd y ffordd. Yn ddiweddar dechreuodd gweithwyr Ceredigion godi sbwriel hyd at waelod Bow Street, ond ni welsant hwy lle roedd mwyaf eu hangen – sef drwy weddill y pentref.

Unwaith eto mynegwyd pryder am sefyllfa baw cŵn ar hyd y pentref, ac nad oedd llythyr y milfeddyg ymddeoledig yn y wasg leol yn ddiweddar yn gwella pethau. Dywedwyd bod llwyth o wenwyn wedi ei osod i ddifa llygod mawr ar waelod Maes Ceiro, ond y newydd da yw bod gan Ceredigion arian (daliwch eich anadl!) i glirio tiroedd tebyg i hwn yn y sir.

Mae problem mynedfa i Gartref Tregerddan yn parhau i achosi problemau. Gobeithir cael cyfarfod eto o'r gwahanol asiantaethau, yn wyneb y ffaith mai'r unig ateb fydd agor ffordd newydd ar yr ochr ddeheuol a fyddai yn dod allan rhywle gyferbyn â Build Centre.

Dywedodd y Cyng. Paul Hinge ei fod yn delio â materion tawelu traffig yn Llangorwen a bod sefyllfa y decin yng Nglan-y-môr wedi dod i fwcwl. Yr oedd hefyd wedi derbyn llythyr gan drethdalwraig yn gofyn am y posibiliadau o gael cysgodfan bws ger Maes Ceiro (i drafaelwyr am y gogledd). Penderfynwyd archwilio faint o ddefnydd a wnaed ar y gwasanaeth hwn dros y misoedd nesaf. Mae'r Cynghorydd Sir hefyd yn cyfarfod â Chynghorydd Sir hefyd yn cyfarfod â gŵyr Railtrack parthed ariannu gorsaf arfaethedig Bow Street.

Adroddodd y Clerc am gyfarfod a gynhaliwyd yn Llwyncelyn i drafod helyntion diraddio Ysbyty Aberystwyth. Mae'n amlwg bod y rheolau a'r awgrymiadau sy'n rhwymo Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cael eu gwneud yn Llundain gan weision sifil na ŵyr ddim byd am gefn gwlad a'i phroblemau, dim ond am y trefi a'r dinasoedd mawrion. Mae hon yn frwydr fawr sydd yn rhaid ei hennill.

CYNLLUNIO: Ceisiadau sydd wedi bod ger bron yn barod: 1 Datblygu llety i fil o fyfyrwyr ar dir Fferm Pen-glais a Bryn Awelon. Mae'r cais wedi ei ganiatáu (Nid yw'r ardal yma yn rhan o Dirymynach bellach). 2 Estyniad un llawr i ymestyn cegin bresennol fferm Bryncarnedd - wedi caniatáu. Ceisiadau newydd: Codi tŷ ar dir Glanmor Fach, Clarach - dim gwrthwynebiad.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mark Williams, AS, yn tynnu ein sylw at newid ffiniau etholaethol Ceredigion a Gogledd Penfro. Daeth pecyn etholiadol oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion a dosbarthwyd hwy i'r cynghorwyr presennol.

Daeth cwyn i lawr bod perchnogion un o bentrefi gwyliau Clarach yn cloi llidiardau ar lwybr cyfrwy sy'n arfer bod yn agored. Gan fod hwn yn fater cymhleth penderfynwyd ei symud ymlaen i'r swyddog priodol ym Mhenmorfa, Aberaeron.

Mae dŵr yn parhau i redeg ar wyneb cornel o gae chwarae Tregerddan. Cysylltir â'r Brifysgol, sef y perchnogion gan obeithio caniatau cyfarpar o fferm Gogerddan i agor neu lanhau y ffos.

# BOW STREET

**Suliau Ebrill - Mai**
**Garn 10 a 5**
**www.capelygarn.org**

Ebrill
29 Nicholas Bee
Mai
6 John Owen
13 Cymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont
20 Bugail
27 Elfed ap Nefydd Roberts

**Suliau Noddfa**
Mai 6 Uno yn y Garn am 10.00
Mai 13 Cymanfa Ganu ym Methel, Tal-y-bont, am 10.00 a 5.30
Mai 20 Uno yn y Garn am 10.30 ar gyfer Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 27 Oedfa am 2.00. Gweinidog. Cymundeb.

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau gwresog iawn i Dylan Gwyn Jones a Jenny, 50 Bryncastell, ar enedigaeth Jacob ar ddiwedd Mawrth, brawd bach i Noa. Mae'n siwr y bydd Jacob, fel Noa, yn rhugl yn y Gymraeg a'r Swedeg mewn dim o dro! Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

**Cylch Meithrin Rhydypennau**

Brynhawn dydd Sadwrn, 31 Mawrth, cynhaliodd Cylch Meithrin Rhydypennau helfa wyau Pasg a phrynhawn coffi gan gasglu cyfanswm o £1356 i'r Cylch. Roedd caeau Pantyperan, Llandre yn llawn plant a'u teuluoedd yn datrys cliwiau i ganfod yr wyau, ac yna bu pawb yn ymlacio dros baned a chacennau yn Neuadd Rhydypennau, gyda chrefftau a stondinau eraill. Mae Pwyllgor y Cylch yn ddiolchgar i'r canlynol am eu cefnogaeth: Meinir Jones a Banc Barclays am roi nawdd £1 am £1; Erin's, sef siop a salon harddwch newydd yn Ffordd y Môr, Aberystwyth; Cigydd Bow Street; Bestway; Morrisons; Spar; Bookers; Rogers and Taylor; Play Planet; Pennau Crafts; Funtastic Nets; a phawb â ddaeth ynghyd ac a gyfrannodd at lwyddiant y digwyddiad. Yn y llun gwelir Meinir Jones o Fanc Barclays gyda dwy o aelodau pwyllgor y Cylch, Katie Jones a Carwen Hughes-Jones, a rhai o'r plant lleol fu'n cymryd rhan.

**Merched y Wawr Rhydypennau**

Cawsom noson wahanol i'r un a drefnwyd ar nos Lun Mawrth y 12fed gan fod ein gwraig wadd yn methu dod. Dim problem i'n llywydd, Mair Lewis, cafodd hyd i berson i'n diddanu mewn chwinciad! Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Richard Lewis, ei gŵr!

Wel am noson ddifyr. Roedd wedi dod a bocseidiau o beth oedd e yn galw yn "drugareddau". Trugareddau diddorol iawn yn ein barn ni. Roedd y rhan helaeth o'i gasgliad gyda chysylltiadau Cymreig.

I gloi'r noson cafwyd paned wedi ei baratoi gan Margaret Roberts a Gwenda Edwards ac enillydd y raffl




oedd Anne Jones.


Cawsom gwmni cangen Tal-y-bont yn ein cyfarfod nos Lun Ebrill yr 2il, a braf oedd gweld cymaint wedi dod. Fe'u croesawyd yn gynnes gan ein llywydd, Mair. Ein gwraig wadd oedd Sioned Hywel, o Landwrog, ond gynt o'r Dolau, lle mae ei mam, Dwysli, yn byw. Croesawyd hi yn gynnes iawn atom gan ein llywydd. Mae Sioned wedi sefydlu busnes yn gwneud anrhegion personol ac unigryw wedi eu pwytho'n gain â llaw yn ôl y gofyn, nwyddau fel bocs cofrodd, llyfr nodiadau, albwm lluniau blancedi ac addurniadau. Yn ogystal ag arddangos ei nwyddau dangosodd rhai o'r darnau gwnïo a wnaeth tra yn yr ysgol a'r coleg, dyna beth oedd gwledd i'r llygaid, anhygoel.

Ar ddiwedd y noson cafwyd cyfle i edrych yn fwy manwl ar ei gwaith a chyfle i brynu neu archebu nwyddau, hynny ar ôl cael paned a lluniaeth hyfryd wedi ei baratoi gan y pwyllgor dan ofal Mair Davies. Diolchodd Enid ar ran cangen Tal-y-bont. Enillwyr y raffl oedd, Mair Davies, Jean Davies, Lisa Davies a Margaret Rees.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Nerys Owen, Gerddi Gleision, ar ennill gradd M. Phil ym Mhrifysgol Aberystwyth. Roedd Nerys yn astudio gwaith awdures leol – Caryl Lewis.




Ar Fawrth 28 dadorchuddiwyd hysbysfwrdd ar hanes pentref Cwmgïedd, Ystradgynlais a chyhoeddwyd cyfres o daflenni am enwogion yr ardal, yn cynnwys J. T. Rees.

### Peidiwch credu Google!

Os ewch i http://maps.google.co.uk/ ac yna rhoi cod post Cae'r Odyn sef SY24 5AW fe ddangosir Brynowen Holiday Park ar safle'r Cae Pêl droed!

### Bedydd

Cafwyd Oedfa Fedydd ddymunol iawn yn Noddfa ddydd Sul 25 Mawrth pryd y bedyddiwyd Erin Betsan Quayzin, merch fach Xavier ac Eleri Quayzin, Caerdydd. I ni yma yn Bow Street Eleri merch Dafydd a Mair Evans, Madryn, Dolau, yw Eleri! Mae hi bob amser yn bleser gweld plant Noddfa yn dod yn ôl i briodi ac i fedyddio eu plant. Un elfen ddiddorol iawn yn achos y bedydd hwn oedd fod y gŵn bedydd yr oedd Erin Betsan yn ei wisgo yn un hynafol ac wedi ei ddefnyddio ar sawl achlysur o`r blaen,sef gan Eleri, Mair a chan dad Mair hefyd. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da.

### Gwellhad Buan

Sioc a syndod oedd clywed am anhwylder diweddar Owain Elystan Morgan, Annedd Deg, Penrhiw. Mae`n dda deall ei fod wedi cael ei edrych ar ei ôl yn anrhydeddus ym Mron-glais ac yn Abertawe a`i fod yn gwella`n raddol o ddydd i ddydd erbyn hyn. Cofion diffuant atat Ow, a gobeithio bod y cadw mi gei yn llenwi`n ddyddiol a thithau bellach wedi stopio smocio!

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Robert, Felicity, Martin a Stephen Pugh, 3 Maes Ceiro, ar farwolaeth mam Felicity yn ddiweddar. Fe fydd llawer ohonom yn cofio am fam Felicity o`r cyfnod pan oedd hi`n byw ym Maes Afallen ac yn aelod o`r WI ag ati. Cofion cywir iawn atoch fel teulu yn eich profedigaeth.

ytincer@googlemail.com

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924

GWASANAETH TEIPIO
Cysylltwch â
Mrs Glenwen Morgans
Heulwen
Penrhyn-coch
Ffôn: 01970 828041
Symudol: 07515494710
Ebost: glenwen.morgans@btopenworld.com

GWASANAETH TEIPIO
CYSYLLTWCH Â
MAIR ENGLAND
PANTYGLYN
LLANDRE
CEREDIGION
SY24 5BS
01970 828693
mairllo@hotmail.com

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN
Cylch Meithrin Rhydypennau
Addysg cyfrwng Cymraeg i blant 2½ oed. Bob Bore Llun, Mawrth a Mercher yn Ysgol Rhydypennau. 9.00am -12.00pm yn ystod y tymor ysgol. £6 sesiwn. I wybod mwy cysylltwch ag arweinyddes y Cylch, Sue Davies ar 820065.

Ti a Fi Llandre
Cyfle arbennig i chi chwarae a chymdeithasu gyda'ch plant. Bob bore Gwener, 9.30am – 11.30am yn Ysgoldy Bethlehem, Llandre. £1.50 y teulu gan gynnwys paned a bwyd bore i'r plant.

TACSI EDDIE

TACSI AR GYFER POB ACHLYSUR, A CHAR ADDAS O SAFON UCHEL I'R ANABL. BYSUS MINI AR GAEL HEFYD

FFONIWCH:

CONNIE AR 828 642

TINA AR 07790 961 226





eich gwefan leol

www.trefeurig.org

newyddion i golygydd@trefeurig.org

William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ



R.J.Edwards

Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt

Arbenigwr ar ailhadu

Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos

Lori, turiwr a malwr i'w llogi

Cyflenwi cerig mân

01970 820149
07980 687475



Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL


# Etholiadau

Bydd etholiad yn y bedair etholaeth Cyngor Sir Ceredigion sydd yn nalgylch y Tincer ar Fai 3ydd. Bydd y bythau arferol ar agor o 7 y.b – 10 y.p Dyma'r enwebiadau ddaeth i law:

**Y Borth**
Shaun Bailey, Aberystwyth (Plaid Geidwadol Cymru)
James Whitlock Davies, Y Borth (Annibynnol)
Ray Quant, Llandre (Annibynnol)

**Melindwr**
Rhodri Davies, Ponterwyd (Plaid Cymru)
Fred Williams, Capel Bangor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)

**Tirymynach**
Paul Hinge, Bow Street (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru)
Jaci Taylor, Bow Street (Plaid Cymru)

**Trefeurig**
Dai Mason, Cwmsymlog (Annibynnol)
Dai Suter, Penrhyn-coch (Plaid Cymru)

Ni fydd yr un etholiad Cyngor Cymuned yn y dalgylch; dyma'r enwebiadau ddaeth i law. Dim ond Cyngor Tirymynach sydd â'r seddau i gyd wedi eu llenwi.

**Y Borth** (11 sedd)
Carol Jacqueline King, Ynys-las
Margaret Griffiths
John Richard James
Bryn Jones
Jacqueline Lawrence
Loraine Moore
Michael John Wilcox
Billy Williams

**Genau'r-glyn** (9)
Susan Davies
David England
Carwen Hughes Jones
Thomas Martin Griffiths
Erddyn Lloyd James
Moss Jones
Meirion Lewis

**Melindwr Llanbadarn y Creuddyn Uchaf** (2)
Gareth Daniel

**Melindwr Pen-llwyn** (5)
Alister Dryburgh
Richard Gwyn Edwards
Aled George Lewis

**Tirymynach - Llangorwen** (4)
Dewi Evans
Dewi James
Owain Elystan Morgan
Rowland Alwyn Rees

**Tirymynach - Tirymynach** (8)
Tom Hughes
Edward Vernon Jones
Sian Thomas Jones
Ann Meinir Lowry
Heulwen Morgan
Harry Llewelyn Petche
David Gwynant Phillips
Robert Allan Pugh

**Trefeurig** (11)
Edwina Mai Davies
Trefor Llewelyn Davies
Daniel Jones
John Tegwyn Lewis
Dai Rees Morgan
Richard Owen (Plaid Cymru)


Allwch chi fod yn ofalwr plant?

Hoffech weithio efo plant?
Hoffech weithio o gartref?
Hoffech roi gofal ac ysbrydoliaeth?

Yna byddwch yn ofalwr plant!

A oes angen gwybodaeth, help neu arweiniad arnoch am faterion sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc?

Gall Gwasanaeth Gwybodaeth Ceredigion (GGC) eich helpu chi. Rydym yn cynnig ystod eang o wybodaeth am ddim, yn gyfrinachol, yn hawdd i ddod o hyd iddo, ac sy'n cynnwys Ceredigion gyfan.

Am fwy o fanylion cysylltwch â ni:
CIS,
Swyddfeydd Cyngor Sir Ceredigion,
Penmorfa,
Aberaeron,
SA46 0PA

Ffôn: 01545 574187 Ebost: cis@ceredigion.gov.uk Gwefan: http://cis.ceredigion.gov.uk



GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON

FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES



Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gelli'manwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



JONATHAN JAMES LEWIS

Saer Coed / Adeiladydd
01970 880652
07773442260

Bronllys
Capel Bangor
Aberystwyth



M THOMAS

Plymwr Lleol

Penrhyn-coch
Gosod gwres canolog
Ystafelloedd ymolchi
Cawodydd
Pob math o waith plymio ac hefyd gwaith nwy
Prisiau rhesymol

07968 728470
01970 820375



ANIFEILIAID TEW

eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol





Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffon (01970) 880627


ytincer@googlemail.com

# Enoch Watkin James

Fe'i ganed ar 3 Mai 1818, ym Mrynllys, fferm o 570 acer, yn fab i Richard ac Anna, y ddau wedi'u geni ym 1781. Dywed John Evans, Abermeurig yn ei ysgrif ar Enoch (ysgrif y byddaf yn dyfynnu cryn dipyn ohoni) yn *Yr Ail Fyr-Gofiant,* -hanes 19 o weinidogion y sir: "Yr oedd Brynllys y fferm agosaf at Gogerddan ar y stad, ac er talu ardreth am y fferm, eto cyfrifid y teulu yr agosaf mewn anrhydedd at deulu Gogerddan". Nid rhyfedd felly i Enoch gael ei alw i wasanaethu yn angladdau'r Prysiaid. Cyn dechrau pregethu pan oedd yn amaethu gyda'i dad daeth Enoch yn adnabyddus fel meddyg gwlad ac fel 'bone-setter' gorau'i genhedlaeth. Er na chafodd hyfforddiant coleg fel ei fab Richard a fu'n feddyg enwog yn y Pentre, Rhondda, gwyddai pobl ei fod yn well nag unrhyw ddoctor arall.

Soniodd ei or-ŵyr Elystan wrthyf amdano'n aros ar fferm a'r wraig yn cwyno i was a oedd wedi anafu'i goes yn ddrwg. Gofynnodd Enoch am ddŵr poeth ac wedi glanhau'r goes a rhoi rhwymyn amdani ei rhoi mewn peipen a welodd y tu allan i'r tŷ, a gorchymyn y gwas i fod yn llonydd am ddeufis. Bu'r feddyginiaeth yn llwyddiant mawr. Mae'n siŵr y byddai swyddogion busneslyd 'iechyd a diogelwch' wedi'i erlyn heddiw! Wedi dechrau pregethu byddai Enoch yn mynd a dod cryn bellter ar y Sul ar ei geffyl, cyn belled â Llambed a godre Meirionnydd a Maldwyn. Byddai pobl yn dod ato i dŷ capel rhwng oedfaon gan gael meddyginiaeth a moddion gras yr un pryd! Ar ôl taith hir a phregethu deirgwaith doedd dim llonydd bore Llun gan y byddai llu o bobl yn cyrchu ato i gael sylw - "Tyaid o gleifion yn ei ddisgwyl a'r gegin fel pe byddai yn *surgery*", a hynny'n ychwanegu at waith ei briod Mary (Rowlands gynt) merch fferm Carrog, Llanddeiniol.Ar ôl ei cholli ym 1873, ail briododd ag Eleanor, merch William Rees a'i wraig, Llwyndewi, Capel Dewi.

"Hynodrwydd mawr Enoch fel amaethwr", meddai'r Parchg. T.J.Morgan yn *Y Drysorfa,* " oedd ei stoc, yn enwedig y ceffylau marchogaeth a fagai". Daeth i sylw gwlad fel 'horse dealer', gofynnid am ei gyngor a gelwid arno i feirniadu mewn sioeau. Ac fel saethwr a physgotwr doedd neb tebyg iddo. Mewn cystadleuaeth saethu ar dir Cyrnol Powell, Nanteos, Enoch oedd y gorau o ddigon. Pan ddaeth y cynghorau sir i fod etholwyd Enoch yn aelod ac elwodd ei gydgynghorwyr ar ei wybodaeth a'i ddoethineb. Mewn un etholiad adroddir am Geidwadwr anllythrennog yn newid ei deyrngarwch a phleidleisio i Enoch gan ddweud, "Coes o le, a choes yn ei lle; braich o'i lle a braich yn ei lle!" Er bod penteulu Brynllys yn eistedd ar y fainc ynadon gwyddom iddo orchymyn ambell was i ddelio â drwgweithredwyr mewn modd ymarferol ambell dro – dwrn nid dirwy efallai!

Er bod fferm fawr dan ei ofal wedi i'w dad Richard ymddeol a chodi Bryndderwen ar draws y fordd i gapel Babell, Dôl-y-bont, yr oedd mynd i bregethu yn sylfaenol bwysig i ŵr Brynllys. Yn ystod Diwygiad 1833 ac yntau'n 15 oed "y teimlodd y dylanwadau ysbrydol", ond tua 1844 wedi ddo briodi a dechrau magu plant y dechreuodd draethu o bulpudau. - "Pan aeth y sôn allan fod gŵr Brynllys yn pregethu, yr oedd pawb am gael y fraint o'i weled a'i wrando. Ac yr oedd y capelau yn cael eu llenwi, a'u gorlenwi, ymhob lle y byddai". Roedd ei dad wedi'i gefnogi ond wedi dweud wrtho na ddylai dderbyn tâl, yn union fel gyda gwella'r cleifion.

"Dyn canolradd ydyw rhwng y byr a'r tal. Dyn ysgafn o gorff ac ysgafndroed ei ymddangosiad. Wyneb hir, tenau, ac yn goch ... Edrycher yn graff ar y ddau lygad, mor dreiddiol eu hedrychiad arnoch, o dan yr aeliau hirion, dwy ffenestr dryloyw o dan fargod trwm a thrwchus". Mae gan y Doctor Thomas Richards, mab fferm Ynystudur, Tre'r-ddôl gyfeiriad diddorol at Enoch ar ddiwedd ei ysgrifau yn *Y Drysorfa* ( Chwefror-Mai 1955) ar 'Methodistiaeth Taliesin' (1792-1900), wrth sôn am y pregethwyr fyddai'n traethu yng nghapel Ynystudur (cangen o Rehoboth): "Yn oedfa'r prynhawn, a honno'n unig, y gwelid weithiau yr henwr Evan Jones o Letylwydyn; un plaen ei air oedd ef, ac yn ddigon beiddgar i alw'n siarp ar y Parch. Enoch James o Frynllys (yr hynaf) i draethu'n fwy hyglyw, hwnnw(fel y gwyddys) yn gymwynaswr gwlad ac ar y ffordd i fod yn Llywydd Cymdeithasfa'r Deau.".Bu farw ar 13 Gorffennaf 1894 cyn gallu gweithredu.

Soniais am Richard y mab yn feddyg adnabyddus yn y Rhondda, ond dilyn ei dad i'r weinidogaeth wnaeth y mab arall, Enoch Watkin a briododd Annie, merch fferm Brynrodyn, a symud i fferm Moelcerni lle cawsant chwech o blant. Ond yn Hydref 1891 yn ddim ond 33 oed, bu farw Enoch yr ieuengaf ac yntau wedi cychwyn ar ei waith fel gweinidog Soar yn y Borth. Claddwyd y tad, y mab a gweddill Jamsiaid Brynllys ym mynwent y Garn.


**W.J.Edwards**



Brynllys © Hawlfraint Chris Denny; trwyddedwyd i'w ailddefnyddio o dan Creative Commons Licence

# Adolygiad

**Heini Gruffudd** *Yr Erlid: hanes Kate Bosse-Griffiths a'i theulu yn yr Almaen a Chymru adeg yr Ail Ryfel Byd*. **Y Lolfa 272 tt £19.95 clawr caled; £12.95 clawr papur**





Wrth olrhain hanes hynod ei deulu, ac yn arbennig ei fam Kate Bosse-Griffiths, mae Heini Gruffudd wedi darlunio'n fyw eithriadol gyfnod pwysig, dyrys ac ingol yn hanes yr Almaen a Chymru.

Llwyddodd Kate, a oedd o dras Iddewig ar ochr ei mam, i ddianc o'r Almaen mewn pryd i osgoi effeithiau gwaethaf erledigaeth wallgof, systematig, ciaidd y Natzïaid ar yr Iddewon. Wedi syrthio mewn cariad a a phriodi'r ysgolhaig Gwyn Griffiths a dod i fyw i'r Rhondda, fe ymdoddodd, a chyfrannu'n gyfoethog eithriadol, i fywyd academaidd, llenyddol, crefyddol a chymdeithasol Cymru. Daeth yn aelod blaenllaw o Gylch Cadwgan, grŵp o lenorion deallus a oedd hefyd yn heddychwyr ac yn genedlaetholwyr Cymreig.

Yn y cyfamser roedd ei rhieni ei brodyr a'i chwaer, serch nad oedden nhw'n ymarfer eu Hiddewiaeth, yn dod o dan fygythiad cynyddol gan yr awdurdodau Natzïaidd. Crogodd Eva, modryb Kate, ei hunan er mwyn rhyddhau ei gŵr a'i phlant oddi wrth y cysylltiad Iddewig a chael eu derbyn yn ddinasyddion cyflawn. Bu farw Kaethe, mam Kate a mam-gu yr awdur, yng ngwersyll-garchar Ravensbruck mewn amgylchiadau y mae'r disgrifiad ohonyn nhw braidd yn rhy arswydus i'w ddioddef.

Mae yna eironi ofnadwy yn yr hanes am gyfraniad hurt a chywilyddus Martin Luther, tad Protestaniaeth, i wrth-Iddewiaeth yr Almaen. Galwodd hwnnw am losgi synagogau, llyfrau a chartrefi Iddewon a gwahardd eu rabiniaid rhag pregethu. Ac onid oedd y 'diwygiwr' hwn wedi'r cyfan yn un o arwyr anghydffurfiaeth Cymru yr oedd Gwyn Griffiths a'i deulu yn lladmeryddion mor deyrngar iddi?

Mae *Yr Erlid* yn dangos dyn yn ei dwpdra a'i frynti mwyaf annynad, ond hefyd ar ei fwyaf goleuedig a chreadigol, ei fwyaf gwrol a phenderfynol hefyd. Roedd perthnasau i'r awdur ymhlith arwyr y gwrthsafiad i Natzïaeth o fewn yr Almaen.

Llyfr ardderchog a phwysig yw hwn, ond nid heb ei frychau. Efallai y caiff y darllennydd y penodau cyntaf yn ddyrys, a'r arddull yn herciog ar adegau. Dyw'r cyhoeddwyr ddim yn ddi-fai yn hyn. Ond dalied ati. Wrth fynd yn ei blaen, mae'r stori'n gafael, ac wedi cau'r cloriau mae dyn yn cael ei adael wedi'i addysgu, ei ysgwyd, ei sobreiddio a'i gyfareddu.

**Cynog Dafis**

# COLOFN MRS JONES

Roeddwn wedi addo yr anfonwn golofn i Ceris nos Wener a dyma fi ar nos Sadwrn yn cywiro f'addewid. A mae gennyf ofn mai dim ond diogi sydd yn gyfrifol am y methiant a hynny yn llythrennol. Gadawais fy ngwaith yn gynnar nos Wener gan feddwl siopa ychydig cyn mynd adref, cerdded Buster, cael swper cyn eistedd i lawr a dechrau ysgrifennu. Roeddwn yn eistedd i lawr am chwech a hithau yn dal yn olau.....y peth nesaf a wyddwn oedd bod Tiny yn mynd yn wirion yn ei chaets a'i bod hi yn nos. Roedd Mrs Jones wedi syrthio i gysgu ac wedi cysgu yn solet tan wedi wyth...rwan,.mae'n rhaid cyfaddef mod i yn eithaf hoff o nap ar brynhawniau Sadwrn a Sul ond gyda'r nos ar nos Wener? Roeddwn mor gymysglyd fel na wyddwn ai cychwyn am fy ngwaith ynteu mynd i fy ngwely ddylwn i ei wneud! A'r hyn sydd yn rhyfeddod yw i mi gysgu noson lawn o gwsg pan euthum i'm gwely.

Rhyw berthynas od sydd gennyf fi a chwsg. Gallaf syrthio i gysgu ond ni fedraf aros yng nghwsg bob nos. Dro arall, ni allaf syrthio i gysgu a byddaf yn cyfrif diadelloedd o ddefaid cyn rhoi'r ffidil yn y to a gwneud paned. Dyma'r math gwaethaf o insomnia oherwydd fe syrthiaf i gysgu tua pedwar a chael craff ar gwsg fel mae'n amser deffro. Mae gennyf ddiffyg cwsg cronig a mae i'w weld yn gwaethygu - neu o leiaf, y mae fy ngallu i ymdopi ag ef yn gwaethygu. Fe oedd amser pan allwn hedfan trwy ddyddiau ar rhyw bedair awr o gwsg heb arafu dim ond rwan yr wyf yn gyson yn agor fy nhgeg ac wedi dechrau syrthio i gysgu yn y lleoedd odiaf a phetawn i yn gysgwr tawel, ni fyddai lawer o ots gennyf am hynny ond a minnau yn medru chwyrnu, siarad yn fy nghwsg, crensian fy nanedd a cherdded trwy fy hun, fe welwch pam fod ofn mawr gennyf syrthio i freichiau Morpheus yn gyhoeddus. Y mae un lle y cysgaf heb unrhyw broblem o gwbl, mewn car pan yw rhywun arall yn dreifio. Efallai mai dyna ddylwn i ei wneud, heirio sioffyr i'm gyrru o gwmpas rhwng rhyw ddeg y nos a saith y bore, fe ofalai hynny y cawn ddigon o gwsg ac y câi Ceris ei golofn yn ôl addewid.

A pham fod Tiny yn mynd yn wirion yn ei chaets?Am nad oedd y teledu ymlaen. Mae gennyf i cockatiel sydd yn gaeth i deledu a mae'n arbennig o hoff o Coronation Street. Pan ddaw hwnnw ymlaen, mae hi yn hopian i'r glwyd agosaf at y teledu a gwylio yn gegrwth - ac os digwyddaf gael ymwelwyr a diffodd y teledu yn ystod Corrie, mae'n neidio i fyny ac i lawr ar ei chlwyd yn rhegi yn iaith cockatiels a doedd hi ddim yn mynd i golli Corrie am bod ei chaethwas yn ddiog.Wn i ddim pwy ydi'r bos go iawn yn y tŷ yma ond amheuaf yn aml iawn nad myfi yw, y fi yw'r gwas sydd yn bwydo a glanhau a thalu'r biliau - ac yn rhoi'r teledu ymlaen!

ytincer@googlemail.com


## Etholiadau Cyngor Sir Ceredigion — 3ydd Mai 2012

Melindwr | Tirymynach | Trefeurig



Rhodri DAVIES X



Jaci TAYLOR X



Dai SUTER X

Mae cynghorwyr ac ymgeiswyr Plaid Cymru yn aelodau o blaid sy'n gweithio er budd holl gymunedau a thrigolion Ceredigion.

I ddarllen ein maniffesto neu daflenni unigol ein hymgeiswyr, ymwelwch â

www.plaidcymru.org/Ceredigion

Plaid
Plaid Cymru

Plaid Cymru — Dechrau newydd i Geredigion

Hyrwyddwyd gan: Rhodri Davies, Jaci Taylor a Dai Suter; ill tri o: 32 Heol y Wig, Aberystwyth, SY23 2LN.

# **Adeg Eisteddfodau** - Cymru ac Ohio

Mae'r adeg yma o'r flwyddyn yn un prysur iawn ymhlith ysgolion cynradd ac uwchradd, mudiadau lleol ac aelwydydd frwdfrydig, sy'n brysur yn trefnu eu gwaith neu berfformiadau at yr Eisteddfodau. Rydym yn cymryd yn ganiatâol pa mor lwcus ydym fel cenedl i gael shwt fath beth; nid yn unig y cyfle a'r cyfleusterau i ddangos a brolio'n talentau, ond hefyd yr angerdd i gadw'n traddodiadau a'n diwylliant yn fyw.


Nid un Eisteddfod fawr, grand; ond cannoedd o Eisteddfodau bach lleol mewn ysgolion neu gapeli, nifer o Eisteddfodau ardaloedd, Eisteddfodau Rhyng-Golegol, ac yna y tair Prif Eisteddfod wrth gwrs, sef Eisteddfod yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Ryngwladol Llangollen.

Y rheswm dwi'n cyffwrdd â'r pwnc yma yw oherwydd i mi gael profiad anhygoel yr wythnos yma, wrth fynd mewn i dair ysgol yn ninas Jackson, Ohio er mwyn gwneud cyflwyniad ar hanes yr Eisteddfod.

Wrth gwrs be sy'n taro nodyn yma yw, roedd y plant yn yr ysgolion yma yn ymwybodol o'r Eisteddfod! Fel mae'n digwydd, roeddent hwythau hefyd wrthi'n paratoi ar gyfer eu heisteddfod.

Mae Jackson yn un o Siroedd De-Dwyrain Ohio yr ymfudodd y Cymry iddi a gwneud eu cartref eu hunain ym 1818 ac yn amlwg, fe ddaeth y Cymry âu cariad tuag at ganu gyda nhw ac fe sefydlwyd yr Eisteddfod gyntaf yn swyddogol nôl ym 1875, mewn pabell fechan ar dir preifat yn Oak Hill, Ohio; fe fynychodd miloedd! Cafodd y mudiad yma ei gymeyd drosto gan y *"Southern Ohio Eisteddfod Association"* yn y flwyddyn 1922 a oedd yn cynnwys grŵp o ddynion a arweinwyd gan John E. Jones, mab Eben Jones, sylfaenwr y *"Globe Iron Company"*. Y nod oedd, fel y dwedais, oedd i gadw'n traddodiadau a'n diwylliant. Fe ddaeth yr achlysuron yma mor boblogaidd i'r graddau nad oedd yna ddigon o le yn y pebyll bychain rhagor. Felly ym1928, adeiladwyd Awditoriwm Yr Eisteddfod yn ninas Jackson, a oedd yn medru eistedd dros 2,000 o bobl a llwyfan oedd yn dal hyd at 500. Dyma oedd yr unig adeilad a oedd wedi cael ei adeiladu'n bwrpasol i ymgartrefu'r Eisteddfod yn y wlad. Yn anffodus, oherwydd effaith y rhyfel mawr ar yr economi, fe gynhaliwyd yr Eisteddfod olaf ym1938. Cafodd yr adeilad ei werthu a'i losgi i'r llawr ar yr 2il o Chwefror, 1973.

Ym 1938, fe ddaeth y *"Southern Ohio Eisteddfod Association"* a D.Merrill Davis i mewn i'r ysgolion fel Cyfarwyddwr Eisteddfodau'r ysgolion. Fe fyddai Mr. Davies yn cyhoeddi enwau cystadleuwyr yr Eisteddfod yn yr ysgolion a oedd yn cynnwys canu unigol, canu côr a chystadlaethau canu'r piano i blant oedran gradd 1 i 12. Gyda miloedd o ddisgyblion yn cymryd rhan yn yr Eisteddfodau,




Llun trwy ganiatad Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Madog , Ohio

cafodd D.Merrill Davis ei adnabod fel "Mr.Eisteddod", ac er fod nifer o'r plant yn nerfus i fynd lan ar y llwyfan i gystadlu, roedd "Mr.Eisteddfod" yna i roi help llaw iddynt.

Heddiw, mae'r Eisteddfod yn dal i gael ei chynnal yn ysgolion Jackson, Ohio. Maent yn rhoi'r cyfle i blant arddangos eu talentau cerddorol o flaen cynulleidfa, ac yn ôl yr hyn ddywed nifer o gyn-ddisgyblion fod hyn wedi rhoi'r hyder iddynt i ddatblygu'i sgiliau siarad cyhoeddus. Er nad ydynt yn cael eu barnu, y mae pob plentyn yn cael rhuban er mwyn cymryd rhan, ac mae'r rhubannau yma'n cael eu noddi gan Ganolfan Madog, Prifysgol Rio Grande.

Yr wythnos yma, roedd hi'n wir yn fraint i mi fod wedi medru mynd mewn i'r tair ysgol yn ninas Jackson, Ysgolion Southview, Northview a Westview, er mwyn gwneud cyflwyniad ar yr Eisteddfod yng Nghymru a sôn am beth sy'n wahanol a beth sy'n debyg. Ym mhob ysgol, fe wnes i siarad o flaen dros 300 o blant. Dyna oddeutu mil o blant weles i mewn un diwrnod, a phob un ohonynt yn gyffrous i glywed acen wahanol, wreiddiol o Gymru. Gallaf ddweud yn ddigon onest fod yna fwy o debygrwydd rhwng plant Jackson a Chymru na allai fyth wedi dychmygu ac un peth wnaeth fy nharo fi fwyaf oedd, y ffaith mai dyma pwy oedd dyfodol yr Eisteddfod yn Unol Daleithiau America. Os ydym am gymryd ein traddodiadau a'n diwylliant o ddifri, ni allwn ni fyth wedyn a chymryd y pethau bychain yn ganiatâol.

Byddaf yn mynychu Eisteddfodau Jackson ym mis Mai, a dwi'n edrych ymlaen i weld sut mae'r plant yn ymateb i'r Eisteddfod, gan gofio, nad ydynt yn cymryd rhan i ennill. Yn ddiddorol iawn, maent yn cael eu hysbrydoli gan yr athrawon i gymryd rhan er mwyn bod yn rhan o rywbeth arbennig iawn.

Hoffwn innau feddwl y gallwn i fod yn fersiwn fenywaidd o "Mr. Eisteddfod" a helpu cadw'r Eisteddfodau i fynd yma!

"Miss 'Steddfod??" - Cawn weld wir!

**Lisa Jones**





# YSGOL PEN-LLWYN

### Ymweliad yr anifeiliaid

Ar brynhawn olaf tymor y Gwanwyn fe ymwelodd Kara Lewis â'r ysgol gyda nifer o wahanol greaduriaid i'r plant edrych arnynt, eu darlunio a'u dal. Am brynhawn cyfan fe gafodd y plant gyfle i olchi crwban, dal draig farfog ac amrywiaeth o wahanol gwningod. Serch hynny, nid oedd pawb eisiau cyffwrdd â'r neidr gantroed anferth! Roedd yn amlwg fod y plant am wybod sut oedd Kara yn gofalu am y creaduriaid. Wedi i bob plentyn gael cyfle i dynnu llun fe gafwyd cystadleuaeth gydag Amy ac Owen yn derbyn hwdi Edupets yr un am yr enghreifftiau gorau. Diolch yn fawr Kara am brynhawn arbennig i orffen y tymor.

### Rasio Moch

Yr oedd yna dipyn o siarad o amgylch y pentre' ar ddechrau'r mis gan fod yna wahoddiad wedi ei roi i bawb i fynychu noson o 'rasio moch' yn neuadd y pentref wedi ei drefnu gan y Gymdeithas Rhieni Athrawon. Er fod nifer yn disgwyl lori fawr i gyrraedd, moch wedi ei darlunio ar ddarn o bren oedd y rhain. Roedd angen sgil ac amynedd i dynnu'r mochyn ar draws y neuadd. Fe gafwyd noson hwyliog ac fe fwynhaodd pawb y cawl blasus a baratowyd gan Mr Elfed Lewis hefyd. Fe godwyd tua £750 i'r coffrau. Diolch hefyd i Mrs Gaenor Parry o Barclays am gynorthwyo gyda chynllun punt am bunt ac i'r pwyllgor am eu gwaith caled.

### Ras 5km Caerdydd

Ar ddechrau'r mis fe aeth Mr Emyr Pugh- Evans i Gaerdydd i redeg yn ras 10km Gŵyl Ddewi i godi arian i'r ysgol. Fe gwblhaodd y ras mewn tua awr gyda'r ymarfer cyson yn talu ffordd.



Y plant yn gweithio'n galed yn paratoi'r ardd newydd.



Roedd y crwban yma'n lân erbyn diwedd y prynhawn.



Mae pob gweithiwr yn haeddu seibiant bach!

### Eisteddfod yr Urdd

Fe gystadlodd y plant yng nghystadleuaeth y côr a'r ymgom yn yr Eisteddfod gylch a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr. Roedd yn brofiad da i bob un o'r plant ac fe roesant berfformiadau da. Diolch i Mr a Mrs Pugh- Evans am arwain a chyfeilio i'r côr.

### Papur Pen-llwyn

Fe weithiodd plant dosbarth 2 yn galed ar ddiwedd y tymor i gynhyrchu papur newydd a ddanfonwyd allan i'r rhieni ar y diwrnod olaf. Mi ydym yn gobeithio mai dyma'r rhifyn cyntaf o lawer.

### Ymweliad Cefin Evans

Roedd yn bleser cael croesawu Cefin Evans i'r ysgol wedi iddo farchogaeth ei feic mynydd yn ras yr 'Yak Attack' ym mynyddoedd yr Himalayas yn ddiweddar.
Fe wrandawodd y plant yn astud ar Cefin wrth iddo rhoi braslun o'r profiadau anhygoel a gafodd yn ystod y ras a ddaeth yn wythfed ynddi gan guro rhai beicwyr proffesiynol o America. Fe ddangoswyd y beic a'r eitemau a gariodd Cefin ar ei gefn yn ystod y ras i sicrhau ei fod yn gallu trwsio'r beic os fod angen a'r bwydydd a oedd yn rhoi yr egni angenrheidiol iddo.

### Garddio

Fe fu dosbarth 2 wrthi'n brysur yn ddiweddar yn plannu gardd newydd. Fe gawsom 70 o goed ifanc i'w plannu oherwydd jiwbili deiamwnt y frenhines ac fe'u defnyddiwyd i greu gwrych o amgylch yr ardd. Profiad braf i'r plant wedi iddynt orffen paratoi'r pridd i blannu oedd bwyta rhai o'r bisgedi a goginiwyd gan dosbarth 1 yn yr awyr agored. Hyfryd.

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Pennau
COFFI BOREUOL
BYRBRYDAU POETH NEU OER
CINIO
TE PRYNHAWN
CREFFTAU AC ANRHEGION
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
Siop **Treasures**, Tlysau a gemwaith (yn cynnwys dylunwyr Cymreig), scarffiau a chyfwisgoedd priodasol.
Gwasanaeth enwai tai ar lechen a llwyau caru. Deunyddiau gwnio, yn cynnwys offer DMC, Anchor, Heritage, Derwentwater ac eraill.
**Ffôn: 01970 820122**

# YSGOL RHYDYPENNAU

**Eisteddfod Yr Urdd**

Da iawn i bawb a fu'n perfformio yn y Neuadd Fawr ac ym Mhontrhydfendigaid yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r parti Cerdd Dant a lwyddodd i ennill a sicrhau lle haeddiannol yn Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cyffiniau fis Mai.Hoffai'r ysgol ddiolch i Mrs Eleri Roberts a Mrs Helen Williams am eu gwaith caled yn ystod yr ymarferiadau.

**Noson Agored**

Cynhaliwyd nosweithiau agored yn yr ysgol yn ddiweddar . Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant a chael sgwrs adeiladol gyda'r athrawon.

**Wythnos Wyddoniaeth**

Ar y 14eg o Fawrth, fe aeth plant blwyddyn 4, 5 a 6 i'r Brifysgol er mwyn dathlu 'Wythnos Wyddoniaeth'. Cafodd y plant gyfle i fwynhau llwyth o dasgau a gweithgareddau yn ymwneud â 'Ein Byd Yn Symud', sef thema'r ŵyl eleni.

Profwyd nifer o weithgareddau diddorol iawn gan y plant yn ystod y bore a hwyluswyd y dysgu gan fod y tasgau yn ymarferol ac yn weladwy iawn.

**Pêl rwyd a Phêl-droed**

Ar y 24ain o Fawrth cynhaliwyd cystadleuaethau pêl-rwyd a phêl-droed cylch Aberystwyth. Chwaraeodd bechgyn y tîm pêl-droed yn dda iawn, ac er iddynt lwyddo i ennill dwy gêm allan o dair, methu wnaethant o drwch blewyn i gyrraedd y rownd gyn derfynol.

Llwyddodd merched y tîm pêl-rwyd i drechu nifer o ysgolion y cylch a chyrraedd y rownd derfynol. Ond, yn anffodus, colli wnaethant mewn ffeinal agos iawn. Ymdrech ardderchog gan y ddau dîm.

**Pêl-droed Yr Urdd**

Bu tîmau pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon; ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf.
Ar ddiwedd y dydd ac ar ôl ennill pob gêm, llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd derfynol; ond colli fu'r hanes yno'n anffodus. Hen dro!

Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn hefyd mewn grŵp cystadleuol iawn. Llongyfarchiadau mawr i aelodau'r ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

**Beicio**

Mae plant blwyddyn 6 yn brysur yn gwella a datblygu ei sgiliau ffordd fawr ar ei beiciau. Maent yn paratoi ar gyfer y prawf terfynol er mwyn ennill tystysgrif diogelwch ar y ffordd fawr.

**Clwb Cant**

Canlyniad Ebrill :
1af-£25-Nia Gwenllian Clubb -Yr Ysgoldy.
2il-£15-Angharad Lewis-11 Broncynfelin.
3ydd-£10-David Evans, Hendre, Maes Henllan.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar *http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk*



Mwynhau gweithgareddau wythnos wyddoniaeth Y Brifysgol.



Tîm pêl-droed Bechgyn



Aelodau'r Parti Cerdd Dant.




Tîm Pêl-rwyd yr ysgol.

**Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau:**
**http://www.rhydypennau.ceredgion.sch.uk**

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
EWR
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Eisteddfod yr Urdd

Unwaith eto eleni gwelwyd nifer dda iawn o ddisgyblion yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd. Llwyddodd parti Dawnsio Disgo yr ysgol i ennill drwodd i Eisteddfod Sir yr Urdd ac yna i ennill y drydedd wobr. Daeth grŵp Dawns Greadigol yr ysgol yn ail yn yr Eisteddfod Gylch. Crewyd y ddawns hon gan y disgyblion eu hunain fel rhan o waith y tymor. Da iawn i'r ddau grŵp a diolch i Miss Cory a Rhiannon Evans am eu gwaith, a'u hamynedd, wrth weithio ar y paratoadau. Diolch hefyd i'r holl rieni am eu parodrwydd i fenthyg eu plant, ar ôl ysgol ynghyd ag yn ystod gwyliau hanner tymor. Bu parti llefaru'r ysgol wrthi yn cystadlu a daethant yn ail yn eu cystadleuaeth.

Yn ogystal, gwelwyd Côr yr ysgol yn ennill drwodd i'r Eisteddfod Sir ynghyd â'r Ensemble lleisiol a'r parti Deulais. Yn yr Eisteddfod Sir ni fu'r Côr yn llwyddiannus ond daeth y parti Deulais yn drydydd. Uchafbwynt y diwrnod oedd yr Ensemble lleisiol wrth iddynt ennill drwodd i'r Eisteddfod yng Nglynllifon, ger Caernarfon. Bu'r chwech ohonynt yn canu darn arbennig a gyfansoddwyd gan Robat Arwyn. Diolch iddo am ei garedigrwydd ac edrychwn ymlaen i weld y chwech yn canu yn yr Eisteddfod. Diolch i'r holl staff am eu gwaith yn hyfforddi'r disgyblion ac i'r rhieni am eu cefnogaeth.

### Ysgolion Iach

Yn ddiweddar cafwyd ymweliad gan Aseswyr Rhan 3 o'r Cynllun Ysgolion Iach. Treuliwyd y bore yn sgwrsio gyda'r disgyblion am yr hyn a wneir i hybu ysgolion iach ynghyd â darllen tystiolaeth yn cefnogi'r cais. Wedi treulio'r amser yn yr ysgol, braf oedd cael gwybod ein bod wedi ennill y ddeilen sy'n dynodi ein bod wedi llwyddo gyda Rhan 3. Mae'r ysgol wrthi erbyn hyn yn cynllunio ar gyfer Rhan 4. Llongyfarchiadau i bawb a fu ynghlwm yn y broses ac i Mrs Evans am y cydlynu.

### Noson Bingo

Cynhaliwyd noson bingo gan yr ysgol cyn Gwyliau'r Pasg. Buom yn lwcus iawn i gael galwr unigryw iawn i dynnu'r peli. Cafwyd noson hwyliog iawn gyda'r oedolion yn mwynhau eu gêmau yn y neuadd a'r plant yn cael gêmau eu hunain. Cafwyd raffl a phaned. Diolch i bawb a ddaeth a hefyd i'r rhai a gyfrannodd gwobrau raffl. Diolch i Andrew Curley am ei waith diflino yn ein diddanu gyda'i arddull unigryw o alw allan y rhifau.

### Sports Relief

Er mwyn cefnogi yr Elusen Sports Relief, bu disgyblion yr ysgol yn rhedeg milltir. Mesurwyd milltir allan o amgylch yr ysgol a'r cae pêl-droed. Noddwyd yr holl ddisgyblion i redeg y filltir. Ar fore dydd Gwener braf a'r disgyblion a'r staff wedi eu gwisgo mewn coch, gwelwyd y disgyblion a'r staff yn cychwyn ar eu milltir. Gwelwyd pob un yn llwyddo i redeg, cerdded neu gymysgedd o'r ddau. Llongyfarchiadau i bawb a fu'n cymryd rhan. Diolch i bawb gasglodd arian noddi.

### Pêl-droed yr Urdd

Bu tîmau pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cymryd rhan yn nhwrnament pêl-droed yr Urdd yn ddiweddar. Chwaraewyd nifer dda o gêmau a gwelwyd y tîmau yn ennill rhai gêmau, colli rhai ac ambell i gêm gyfartal. Er yr holl ymdrech, ni welwyd yr un o'r tîmau yn ennill drwodd i'r gêmau cyn derfynol. Llongyfarchiadau i bob un fu'n chwarae.

### Cinio'r Gymuned

Braf oedd cael cyfle i ymweld â chinio'r gymuned cyn gwyliau'r Pasg. Cafwyd gwahoddiad i'w diddanu ar ôl iddynt orffen eu cinio. Cafwyd cyfle i ganu caneuon amrywiol a gwelwyd y Parti Deulais, y Côr, yr Ensembl a'r parti llefaru yn cymryd rhan. Diolch i'r aelodau am eu croeso cynnes ac edrychwn ymlaen i fynd atynt unwaith yn rhagor yn y dyfodol.

### Diolch

Yn ystod gwyliau'r Pasg, gwelwyd nifer o rieni'r ysgol wrthi yn tacluso o amgylch yr ysgol. Bu'r criw wrthi yn paentio ffensys, seddau, tacluso'r siediau ac yn creu ardal arbennig wrth flaen yr ysgol. Diolch i'r criw yma am eu gwaith diflino a'u parodrwydd i gefnogi'r ysgol.



Ensemble yr ysgol a fu'n fuddugol yn Eisteddfod yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion



Holl ddisgyblion yr ysgol a fu wrthi yn creu gwaith ar gyfer Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd

### Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor, bu'n rhaid ffarwelio â Miss Buddug Williams. Bu Miss Williams yn yr ysgol ers mis Medi. Cyflwynwyd blodau iddi ynghyd â chardiau a wnaethpwyd gan y disgyblion. Diolch iddi am ei gwaith diflino yn ystod y cyfnod byr y treuliodd yn ein cwmni a phob dymuniad iddi ar gyfer ei dyfodol.

### Celf a Chrefft 2012

Mae wedi bod yn dymor brysur iawn yn ein Clwb Celf a chrefft.Bu'r plant yn paratoi eitemau amrywiol i gystadlu yn adran Eistedddfod yr Urdd o dan y thema 'Symud, Cyffro a Dathlu. Penderfynodd y plant gystadlu wrth wehyddu, argraffu, gwnïo eitemau 3D/2D, ffotograffiaeth, Dylunio a Thechnoleg, eitem wedi ei ailgylchu a gwau. Cafwyd llwyddiant ysgubol ar draws wrth ennill 15 1af, 11 2il a 2 3ydd!

Parhawyd y llwyddiant wrth i ni dderbyn y canlyniadau canlynol yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac mi fyddant yn cael eu harddangos yn yr Eisteddfod yn Eryri rhwng Mehefin yr 2il-9fed.

**1af:**
-Elain Donnelly, 3D Tecstiliau Bl 5 a 6
-Charlotte Ralphs,Gwehyddu Bl 3 a 4
-Grwp Zoe Rhodes, Charlotte Ralphs, Charlotte Richmond, Hannah Jenkins, Florrie Lithgow, Gwehyddu Bl 3 a 4
-Grwp Aneurin Rowlands, Shane Evans, Llion a Celyn Edwards, Sion James a Haf Morgans (Dylunio a Thechnoleg Bl 3 a 4)

**2il**
-Molly Ralphs, Gwehyddu Bl 2 iau
-Seren Wyn Jenkins,Print du a gwyn Bl 5 a 6

**3ydd**
- Hafwen Clarke, 3D Creadigol
- Grwp Molly Ralphs, Cerys Hurford a Megan, 2D Tecstiliau Bl 2 iau

Llongyfarchiadau i chi ac rydym fel ysgol yn diolch o galon i'r holl staff, rhieni, a ffrindiau yn y Pentref sydd wedi rhoi oriau lawer i gynorthwyo'r plant i ddysgu crefft newydd a mwynhau ar yr un pryd. Rydym wedi dysgu llawr gyda'n gilydd ac mi roedd yn braf cynnwys y gymuned oll mewn gweithgaredd o'r fath.

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

**Eisteddfod yr Urdd**
Llongyfarchiadau i ddawnswyr Ysgol Craig yr Wylfa am gyrraedd yr 2il safle yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo 'Hip-Hop' yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar. Diolch yn fawr i Charlotte Warwick am hyfforddi'r criw. Llongyfarchiadau hefyd i'r Parti Unsain am ganu 'O'r Hedyn Bychan' gan Eric Jones yng nghystadleuaeth y Parti Unsain.

**Gwyddoniaeth**

Ar Fawrth 13eg treuliodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 brynhawn ym Mhrifysgol Aberystwyth fel rhan o'r wythnos 'Gwyddoniaeth a Pheirianneg'. Cafodd y plant amser wrth eu bodd gan ddysgu llawer am y gwaith gwyddonol sy'n digwydd yma yn Aberystwyth.

**Pontio**

Treuliodd rhai o blant Cylch Meithrin y Borth gyfnodau yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen yn ddiweddar fel rhan o'r cynllun 'Pontio' o'r Cylch i'r Ysgol Gynradd. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu'r disgyblion newydd, Summer, Ewan a Connor i'r ysgol ym Mis Ebrill.

**Gweithgareddau**

Aeth yr ysgol gyfan i weld perfformiad 'Ballet Nimba' ar brynhawn Mawrth 21ain, fel rhan o ŵyl Agor Drysau a drefnwyd gan Gwmni Theatr Arad Goch. Mwynhaodd y plant a'r staff y perfformiad ac rydym yn edrych ymlaen at y perfformiad nesaf!

**Mathemateg**

Trefnwyd gweithdy Datrys Problemau Mathemateg yn Ysgol Craig yr Wylfa yn ddiweddar gan wahodd disgyblion Ysgolion Llangynfelyn a Thal-y-bont i gymryd rhan. Nod y gweithdy oedd cynnig profiadau ymarferol i'r plant er mwyn targedu problemau yn ymwneud â rhif. Roedd ymateb y plant yn arbennig, ac mae'r disgyblion yn awyddus i wneud mwy o weithgareddau tebyg ar y cyd. Cytunodd y plant bod y profiadau dysgu yma'n llawer o hwyl ac yn llawer mwy buddiol nac ysgrifennu'n ddi-stop yn eu llyfrau!!

**Pêl-droed**

Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed Ysgol Craig yr Wylfa am gystadlu yn nhwrnamaint Ysgolion Cylch Aberystwyth ar gaeau Blaendolau ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Roedd y cystadlu o safon uchel iawn a chafwyd perfformiad arbennig gan bob un.

**Ffair Pasg**

Cynhaliwyd y Ffair Pasg yn yr ysgol ar ddydd Gwener olaf y tymor. Roedd yna lawer o weithgareddau at ddant pob oedran gan gynnwys helfa wyau Pasg, paentio wynebau, cystadlaethau hetiau a gerddi Pasg, raffl, stondinau di-ri a chyfle i eistedd i lawr, ymlacio a chael sgwrs gyda ffrindiau dros baned. Diolch yn fawr i Gymdeithas Rhieni, Ffrindiau ac Athrawon yr ysgol am drefnu, i bawb am gefnogi'r achos, ac yn arbennig i gwmni Bam Nuttall am ddarparu tocynnau llyfrau fel gwobrau i'r cystadlaethau.

**Ffarwelio**

Ar ôl treulio cyfnod hir fel gweithiwr cynnal disgyblion yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Craig yr Wylfa, rydym yn ffarwelio a Mrs Emma Davies ar ddiwedd tymor y Gwanwyn. Rydym yn diolch yn fawr iawn iddi am ei chyfraniad at waith yr ysgol ac yn dymuno pob lwc iddi yn ei swydd newydd.











**Gofal Traed Aber**
Ceiropodydd / Podiatrydd cofrestredig H.P.C.
Triniaeth ar ewinedd a chyrn
Llawdriniaeth ar gasewinedd
Triniaeth / asesiad arbenigol ar draed diabetig
Gwadnau ac asesiad biomecanyddol
**TRINIAETH YN Y CARTREF AR GAEL**
Cysylltwch gyda Shân Jones neu Richard Ellison ar **01970 617269** am apwyntiad

**RHODRI JONES**
Brici a chontractiwr adeiladu
**07815 121 238**
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am banffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

# TASG Y TINCER

Ddaru chi fwynhau eich gwyliau Pasg? Mi fues i'n ddigon lwcus i ymweld â'r sw dros y Pasg, a gweld y pethau rhyfeddaf – pry copyn mawr, ystlumod, eliffantod, morloi, a llawer o bethau eraill! A fuoch chi'n gwneud rhywbeth diddorol dros y gwyliau?

Diolch i'r pedwar fu'n lliwio'r llun o Big Ben y mis diwetha. Roedd eich lluniau'n ardderchog: Lleucu Siôn, Tyddyn Llwyn, Llandre; Elin Gore, Troedrhiwgwynau, Comins-coch; Nia Jones, Brynolwg, Bont-goch; Craig Edwards, 10 Pen-llwyn, Capel Bangor. Da iawn chi. Ti, Elin, sy'n mynd â hi y tro hwn, am dy liwio gofalus. Daliwch ati, bawb arall. Mae'n bleser cael eich lluniau drwy'r post.


Elin Gore

Wel, mae mis Mai bron â dod. Dyma fy hoff fis i. Mae'r haf bron â chyrraedd, ac mae'r gerddi a'r caeau yn llawn bywyd gwyllt a blodau. Ac mi ranna'i gyfrinach â chi – rwy'n cael fy mhen blwydd yn ystod y mis, felly dyna reswm arall pam rwy'n hoff ohono! Mae 'na enw arbennig ar 1 Fai, sef Calan Mai. Ers talwm, byddai pobl yn dathlu Calan Mai drwy gasglu brigau coeden o'r enw'r ddraenen wen ac yn dawnsio yng nghanol y pentref i ddathlu bod yr haf ar ei ffordd. Byddai rhywun o'r pentref yn chwarae pib neu ffidil a byddai pawb yn ymuno yn yr hwyl er mwyn croesawu'r haf. Mae sôn hefyd am bobl yn canu carolau haf ar Galan Mai.

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r pilipala yn mwynhau'r tywydd braf? Cofiwch ddefnyddio digon o liwiau llachar. Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Calan Mai! (Mai 1af) i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street. Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Oed | Rhif ffôn


CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
*Sefydledig dros 30 mlynedd*
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200


ISSN 0963-925X
9 770963 925009
Rhif 348 | EBRILL 2012